



GWNEUD
Y PETH
IAWN DROS
FYD NATUR
2022

DIWEDDARIAD AR ADRODDIAD STATUDOL
DŴR CYMRU WELSH WATER AR EIN DYLETSWYDD
BIOAMRYWIAETH O DAN ADRAN 6 O DDEDDF
YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016

RHAGAIR



Yn Dŵr Cymru, rydyn ni'n falch o ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff ar gyfer dros dair miliwn o gwsmeriaid — ac rydyn ni'n dibynnu ar yr amgylchedd wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. Fel cwmni cyfrifol, rydyn ni'n cydnabod yr effaith amgylcheddol y gall ein gweithgareddau ei chael ar yr amgylchedd, ac felly mae hi'n hanfodol ein bod ni'n gweithio'n galed i amddiffyn yr adnodd gwerthfawr a hanfodol yma.

Trwy adborth ein cwsmeriaid, rydyn ni'n deall bod cwsmeriaid am i ni fuddsoddi, arloesi a gweithio mewn partneriaeth er mwyn gofalu am yr amgylchedd naturiol yn y tymor hir nawr yn fwy nag erioed. Yma yng Nghymru, o dan Ddeddf yr Amgylchedd (2016), mae dyletswydd gyfreithiol arnom i brif-ffrydio a chyfoethogi bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau hefyd. Ac yn rhan o Ddŵr Cymru 2050, rydyn ni'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

”

EIN NOD YW DARPARU
GWASANAETH GWYDN
A CHYNALIADWY O
SAFON WIRIONEDDOL
RYNGWLADOL, AC
AMDDIFFYN YR ETIFEDDIAETH
AMGYLCHEDDOL
Y BYDDWN YN EI
GADAEL AR GYFER
CENEDLAETHAU'R DYFODOL.

”

Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd ein strategaeth bioamrywiaeth newydd sbon sy'n pennu ein cenhadaeth lefel uchel a'n nodau a'n hamcanion ar gyfer bioamrywiaeth ar draws y cwmni. Mae'r cynllun gweithredu 'Neilltuo Amser ar gyfer Natur' sy'n cael ei gyhoeddi bob tair blynedd (cyhoeddwyd yr un diwethaf yn 2020), yn gweithio ochr yn ochr â'r strategaeth er mwyn sicrhau bod gennym gynlluniau cyflawni clir ar gyfer y tymor canolig (2030), ac y gallwn weithio tuag at amcanion tymor hwy ein gweledigaeth ar gyfer 2050 a'r tu hwnt. Mae'r 30 ymrwymiad yn ein cynllun bioamrywiaeth yn ategu nifer o ffrydiau gwaith ar draws y sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys ein siwrai i Garbon Sero Net 2040, a'n gwelliannau parhaus o ran caffael cynaliadwy ymhlith eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ein bod ni'n wynebu argyfwng bioamrywiaeth yng Nghymru, a hynny ochr yn ochr ag argyfwng yr hinsawdd. Fel cwmni sydd mewn perchnogaeth ar ran ei gwsmeriaid, rydyn ni wedi ymrwymo i wneud y peth iawn wrth ofalu am yr amgylchedd er mwyn cyfrannu at lesiant y cymunedau a wasanaethwn. O ganlyniad, rydyn ni wrthi'n buddsoddi dros £800m yn yr amgylchedd yn y pum mlynedd hyd 2025.

Mae'r adroddiad Bioamrywiaeth yma'n adlewyrchu'r ymrwymladau parhaus sy'n deillio o'r cynllun bioamrywiaeth flaenorol 'Neilltuo amser ar gyfer natur', a gyhoeddwyd yn 2020. Mae'n disgrifio'r cynnydd a wnaed, a'r uchelgeisiau sydd gennym wrth edrych ymlaen er mwyn bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid a diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Peter Perry
Prif Weithredwr

PWY YDYN NI?

Dŵr Cymru Cyfyngedig (Dŵr Cymru) yw'r cwmni dŵr a charthffosaeth statudol sy'n cyflenwi dros dair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyfagos o Loegr. Rydyn ni dan berchnogaeth Glas Cymru, cwmni un pwrpas heb unrhyw gyfranddeiliaid, sy'n cael ei redeg yn llwyr er budd ei gwsmeriaid.

Rydyn ni'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ar gyfer ein cwsmeriaid trwy gyflenwi eu dŵr yfed, a chludo'u dŵr gwastraff i ffwrdd a delio ag ef wedyn. Yn hynny o beth, rydyn ni'n gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd ac at ddiogelu amgylchedd Cymru. Mae ein gwasanaethau'n hanfodol i ddatblygiad economaidd cynaliadwy Cymru hefyd.



PAM FOD ANGEN ADRODDIAD?

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Dŵr Cymru Welsh Water ei strategaeth bioamrywiaeth newydd sbon a oedd yn pennu ein cenhadaeth lefel uchel, ein gweledigaeth, ein nodau a'n hamcanion o ran bioamrywiaeth ac ecoleg ar draws y cwmni.

Ein cenhadaeth, a adlewyrchir yn ein gweledigaeth 2050 a'n cynllun bioamrywiaeth, yw 'cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau er lles cenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol'. Mae'r adroddiad hwn yn ddiweddariad ar adroddiad statudol Dŵr Cymru Welsh Water i gyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn ogystal â chynnig diweddariad ar gynnydd ein cynllun bioamrywiaeth, mae'n dangos sut rydyn ni'n sefydlu nodau a gweledigaethau mewn cyd-destun ehangach, fel cyd-destun nodau cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn ystyried sut rydyn ni'n gweithio dan bolisiau ein rheoleiddwyr, fel yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (ASANC) a'r Datganiadau Ardal. Wrth edrych tua'r dyfodol, rydyn ni'n archwilio sut y gallwn fynd ati i ymgorffori allbwn Archwiliad Dwfn Llywodraeth Cymru o Fioamrywiaeth i'n dull o weithredu hefyd.

“
EIN CENHADAETH:
CYNNAL A
CHYFOETHOGI
BIOAMRYWIAETH
WRTH GYFLAWNI
EIN SWYDDOGAETHAU
ER LLES CENEDLAETHAU
HEDDIW A RHAI'R
DYFODOL.
”

O dan Adran 6(7) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gofyn i'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, baratoi a chyhoeddi adroddiad bob tair blynedd i ddangos beth maent wedi ei gyflawni o fewn y ffenestr adrodd er mwyn cyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth. Hwn yw ail adroddiad Dŵr Cymru o dan adran 6(7) o Ddeddf 2016, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2019 a 2022. Pennwyd yr ymrwymadau yr adroddir arnynt yn ein Cynllun Bioamrywiaeth 'Neilltuo amser ar gyfer natur' a gyhoeddwyd yn 2020, a oedd yn amlinellu beth roeddem ni'n bwriadu ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan Adran 6(1) i "geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac yn hynny o beth, hybu gwytnwch ecosystemau i'r fath raddau ag y bo hynny'n gyson â chyflawniad priodol y swyddogaethau hynny."

Ynghyd â'r adroddiad hwn, byddwn ni'n diwygio ein cynllun bioamrywiaeth 'Neilltuo amser ar gyfer natur' i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed. Yn unol â'r strategaeth bioamrywiaeth a gyhoeddwyd ddechrau 2022, bydd y cynllun nesaf yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gyfoethogi a chynnal bioamrywiaeth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau ac yn ymgorffori allbwn o Archwiliad Dwfn Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth bellach a gyhoeddir o fewn y ffenestr ddrafftio. Byddwn ni'n cyhoeddi ein cynllun bioamrywiaeth nesaf erbyn Rhagfyr 2023.



AR GYFER PWY MAE'R ADRODDIAD?

Yn yr un modd â'n cynllun bioamrywiaeth diweddaraf, rydyn ni'n rhag-weld y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i sawl cynulleidfa, gan gynnwys:



Ein rheoleiddwyr ac unrhyw un sydd am wybod sut mae Dŵr Cymru'n gweithio tuag at y genhadaeth a'r weledigaeth a bennwyd yn ein strategaeth bioamrywiaeth; yn ogystal â deddfwriaeth y Cenhedloedd Unedig, y DU a Chymru, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a sut mae Dŵr Cymru'n cyflawni'r ddyletswydd gryfach sydd arni o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.



Sefydliadau, fel grwpiau o'r sector gwirfoddol a chymunedol, sy'n chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â Dŵr Cymru i gyflawni mentrau a fydd yn cynorthwyo bioamrywiaeth wrth edrych tua'r dyfodol.



Cydweithwyr ar draws Dŵr Cymru sy'n awyddus i ddysgu rhagor am ein rôl wrth gynorthwyo bioamrywiaeth, ac yn benodol, sydd am ddeall sut y gallwn ni i gyd neilltuo amser ar gyfer natur wrth gyflawni ein gwaith o ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff hanfodol ar gyfer ein cwsmeriaid pob dydd.



Ac yn bwysicach na dim, mae'r adroddiad hwn ar gyfer ein cwsmeriaid. Byddwn ni'n parhau i fod yn agored ac yn onest yn ein dulliau o weithredu o ran bioamrywiaeth ac ecoleg, ac edrychwn ymlaen at ddeall disgwyliadau ein cwsmeriaid o ran bioamrywiaeth, ecoleg, cynaliadwyedd yn ogystal â'r risg cynyddol yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn fwy manwl, a fydd yn helpu Dŵr Cymru i flaengynllunio.

SUT YDYN NI'N ADOLYGU EIN PERFFORMIAD O RAN BIOAMRYWIAETH?

Ar hyn o bryd, mae ein perfformiad o ran bioamrywiaeth yn cael ei fesur ar sail y cynnydd a wneir tuag at y 30 ymrwymiad a bennwyd yn ein cynllun bioamrywiaeth 'Neilltuo amser ar gyfer natur', yr adroddwn arnynt yn yr adroddiad statudol hwn. Mae ein Bwrdd a'n Gweithgor, yn ogystal â'n cydweithwyr, yn parhau i gymryd diddordeb brwd yn yr amgylchedd ac yn ein hymrwymiad i wella bioamrywiaeth. Maen nhw'n cael adroddiadau interim ar gynnydd yn ogystal â diweddariadau ar brosiectau a datganiadau o'r sefyllfa. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r cynllun hwn cyn ei gyhoeddi hefyd. Yn ogystal â'r Bwrdd, mae ein Panel Ymgynghorol Amgylcheddol Annibynnol (IEAP)* yn parhau i gael diweddariadau cyson ar gynnydd o ran bioamrywiaeth, gyda'r aelodau'n cynnig cyngor a chyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth, ac yn herio'r cynnydd a wnawn tuag at ein dyletswydd bioamrywiaeth.

Mae gennym nifer o ymrwymïadau o ran bioamrywiaeth hefyd, sy'n cael eu llywio gan ein Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (NEP) yng Nghymru, a Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol y Diwydiant Dŵr (WINEP) yn Lloegr. Mae'r rhain yn ofynion rheoleiddiol, a rhaid adrodd i'r rheoleidiwr perthnasol arnynt ar ddyddiad a bennir yn ystod proses yr adolygiad o brisiau (PR). Mae gennym nifer o ymrwymïadau o ran bioamrywiaeth yn sgil proses yr adolygiad diwethaf o brisiau a gyflawnwyd yn 2019 (PR19) i bennu ein rhaglen Cynllunio Rheolaeth ar Asedau (AMP) 7 (buddsoddiadau rhwng 2020 a 2025), ac mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau gwaelodlin o fioamrywiaeth, ymchwiliadau i Rywogaethau Goresgynol a mwy.

Mae ein Strategaeth Bioamrywiaeth (a gyhoeddwyd ddechrau 2022) yn parhau i archwilio gwahanol ddulliau o gofnodi ein perfformiad o ran bioamrywiaeth. Rydyn ni'n gweithio ar y canlynol ar hyn o bryd, a byddwn ni'n parhau i chwilio am ddulliau ychwanegol o gofnodi ein cynnydd tuag at ein dyletswydd bioamrywiaeth:



Rydyn ni wrthi'n cynllunio ar gyfer ein rhaglen PR24 a fydd yn pennu'r gwariant a gymeradwyir gan Ofwat ar gyfer y cylch AMP (Cynllunio Rheolaeth ar Asedau) nesaf, sef AMP8, a fydd yn rhedeg rhwng 2025 a 2030. Hyn fydd yn pennu ein rhwymedigaethau o ran NEP a WINEP, a bydd yn helpu hefyd i flaenoriaethu ein huchelgeisiau o ran bioamrywiaeth a'r gofynion rheoliadol ar gyfer yr AMP nesaf. Bydd y mesurau adrodd yn amrywio rhwng y gwahanol raglenni gwaith, ond rydyn ni'n bwriadu cyflwyno targedau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyr) lle bo modd er mwyn mesur y buddion meintiol trwy gynnydd canrannol neu rywbeth tebyg.



Yn Lloegr, mesurir bioamrywiaeth gan ddefnyddio offeryn DEFRA i fesur y Cynnydd Net mewn Bioamrywiaeth. Yng Nghymru, mae offeryn cyfatebol yn dal i gael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a CNC. Nes bod offeryn Cymru ar gael, byddwn ni'n dal ati i ddefnyddio Metrig Bioamrywiaeth 3.1 Lloegr (fersiwn yn gywir adeg argraffu) ar gyfer yr holl astudiaethau gwaelodlin bioamrywiaeth ac asesiadau o'r cynnydd net. Byddwn ni'n ymgorffori dull gweithredu DECCA (Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd ac Agweddau ar Wytwnwch Ecosystemau) CNC hefyd lle bo modd.



Offeryn arall y mae'r busnes yn ei ddefnyddio yn ei benderfyniadau ar hyn o bryd yw cyfrifeg Aml-gyfalaf, sydd, i bob pwrpas, yn gwerthuso'r cyfalaf naturiol sy'n gysylltiedig â'n prosiectau a'n buddsoddiadau. Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio'r offeryn yma i fwydo penderfyniadau ar ein holl brosiectau, gan gynnwys o ran bioamrywiaeth.

Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu nifer o ymrwymïadau â dyddiadau cwblhau penodol, yn ogystal â rhai sydd heb ddyddiadau pendant. Y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n cyhoeddi ein cynllun bioamrywiaeth nesaf – a fydd yn edrych ymlaen dros y 3+ mlynedd nesaf. O fewn y cynllun hwn, byddwn ni'n ailasesu ein hymrwymïadau cyfredol ac yn ceisio eu diweddarau i fod yn gyson â'n strategaeth bioamrywiaeth newydd (a gyhoeddwyd yn 2022) a'n rhaglen PR. Bydd yr holl dargedau yn rhai CAMPUS wrth edrych tua'r dyfodol.

***Mae ein Panel Ymgynghorol Amgylcheddol Annibynnol (IEAP) yn cynnwys yr aelodau canlynol:**

Sefydliad Gwy ac Wysg, Prifysgol Caerdydd, Coed Cymru, Llywodraeth Cymru, Y Gymdeithas Tir Cefn Gwlad, yr RSBP, Afonydd Cymru, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, Yr Awdurdod Glo, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Busnes yn y Gymuned Cymru, CLILC, Cynnal Cymru, FUW, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Natural England, NFU Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Glandŵr Cymru a'r River Trust, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Cadw Cymru'n Daclus, Prifysgol Aberystwyth, Wrap Cymru, DEFRA, Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru, PD Partnerships, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Priddoedd Cynaliadwy.

Gallwch gael rhagor o fanylion am IEAP yma:

corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/helping-the-environment/independent-environmental-advisory-panel

Y THEMÂU SY'N CODI YN Y CYFNOD ADRODD HWN

Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi bod yn un o newid a sialensiau sylweddol. Fodd bynnag, rydyn ni wedi parhau i gyflawni ein swyddogaethau crai fel cwmni dŵr — sef cyflenwi dŵr glân, cludo dŵr gwastraff i ffwrdd a'i drin, ac amddiffyn yr amgylchedd.

Gyda'n Gweledigaeth mewn golwg, rydyn ni wedi parhau i gyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth a bennwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fel ymgymerydd dŵr a chorthffosiaeth, ein prif gysylltiad â'r amgylchedd naturiol yw ein gwaith wrth godi a rhyddhau dŵr. Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn berthnasol wrth i ni gyflawni ein swyddogaeth, ac o fewn y cyfnod adrodd yma, rydyn ni wedi gweld cynlluniau bioamrywiaeth yn cael eu hymgorffori i lawer o'r cynlluniau statudol ar draws y busnes, fel y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, y Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) a'n dull o weithredu er mwyn Rheoli Adnoddau Naturiol mewn Ffordd Gynaliadwy (SMNR). Yn hynny o beth, mae ein hymdrechion o ran bioamrywiaeth yn gosod y sylfaen ar gyfer rhan helaeth o'n Gweledigaeth, yn ogystal â chyflawni ein hamrywiol ddyletswyddau deddfwriaethol, ac maent, i bob pwrpas, wrth galon ein holl waith.

Er bod pandemig wedi dominyddu'r cyfnod adrodd hwn, rydyn ni wedi parhau i wneud cynnydd gyda'r 30 ymrwymiad a bennwyd yn ein Cynllun Bioamrywiaeth 'Neilltuo amser ar gyfer natur — ein cynllun diwygiedig' a gyhoeddwyd yn 2020. Hwn fydd ein hail adroddiad yn rhan o'n dyletswydd o dan Adran 6, sy'n berthnasol i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2023, byddwn ni'n cyhoeddi ein trydydd gynllun bioamrywiaeth blaengar, a fydd yn parhau i bennu sut y byddwn ni'n cyflawni ein dyletswydd o dan Adran 6, yn seiliedig ar Gynllun Adfer Natur Cymru (NRAP) CNC sy'n cael ei ategu gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r Ddeddf Llesiant. Bydd y cynllun yn ymgorffori allbwn o Ymchwiliad Dwfn Llywodraeth Cymru o Fioamrywiaeth lle bo modd hefyd.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn gwelwyd dau ddigwyddiad arwyddocaol sydd wedi bwrw goleuni pwysig ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol. Yn gyntaf, yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng bioamrywiaeth, y cyntaf o'i fath yn y DU, trwy ei Gynllun Gweithredu i Adfer Natur Cymru 2020–21. Yn ogystal, cynhaliwyd COP26 yn ninas Glasgow yn ystod y cyfnod adrodd hwn, a bwysleisiodd pwysigrwydd amddiffyn a diogelu ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydyn ni wedi codi ymwybyddiaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn trwy ddiweddarau systemau mewnol, cynhyrchu mwy o ganllawiau a chynnal sesiynau 'dysgu dros ginio' ar gyfer cydweithwyr o fewn y busnes. Ond mae llawer o waith dysgu o'n blaenau o hyd. Rydyn ni'n parhau i addysgu ein timau gweithredol er mwyn sicrhau y gallwn osgoi difrod diangen i'r amgylchedd wrth gyflawni ein swyddogaethau craidd. Yr un pryd, rydyn ni'n datblygu cynigion i gyfoethogi'r amgylchedd hefyd, a lle'r ydyn ni wedi gwneud camgymeriadau, rydyn ni'n gyflym i gyflawni gwaith adfer a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r camgymeriadau er mwyn lliniaru unrhyw risgiau yn y dyfodol.

SUT RYDYN NI'N NEILLTUO AMSER AR GYFER NATUR

Er mwyn annog gwelliannau graddfa fach a hyrwyddo bioamrywiaeth ar draws ein safleoedd gweithredol, lansiwyd ein pecynnau gofal bioamrywiaeth yn 2022. Mae'r prosiect arloesi arobryn yma eisoes wedi dosbarthu'r isod ar draws ein safleoedd gweithredol er mwyn sicrhau gwelliannau pellach...

- 29.5kg o hadau blodau gwyllt
- 39 blwch ystlumod
- 2 westy chwilod
- 65 blwch adar
- 200 bwlb

Ac mae'n parhau i dyfu wrth i fwy o dimau gymryd rhan!



Mesur bioddiogelwch ar draws safleoedd ein hatyniadau ymwelwyr er mwyn hybu'r ymgyrch genedlaethol 'Glanhau, Archwilio a Sychu'

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Yn rhan o'n mesurau bioddiogelwch, mae hysbysfyrddau newydd wedi cael eu creu a'u dosbarthu ar draws y busnes, yn enwedig ar safleoedd ein hatyniadau ymwelwyr, i hyrwyddo'r ymgyrch genedlaethol i gofio 'Glanhau, Archwilio a Sychu' pob darn o offer. Yn ogystal â hyn, mae'r holl ofalwyr a hyfforddwyr gweithgareddau wedi cael hyfforddiant ychwanegol yn y mesurau bioddiogelwch er mwyn hybu arferion da a newid unrhyw arferion gwael.

Mae ein system ffynonellau mewnol yn gyfoes hefyd, gyda chanllawiau bioddiogelwch a rhywogaethau goresgynnol y mae gan yr holl gydweithwyr fynediad ato.

Canfod nifer y Cregyn Glas Rhesog sydd yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau, ar y trywydd iawn



Cyfyngedig yw dosbarthiad y cregyn glas rhesog yng Nghymru ar hyn o bryd, ond gwyddom fod yna boblogaethau yng nghronfa ddŵr Llandegfedd. Fodd bynnag, nid oes gennym ddealltwriaeth dda o'u dosbarthiad yng ngweddill dalgylch afon Wysg. Rydyn ni'n gweithio gydag APEM i gasglu tystiolaeth a chyflwyno argymhellion o ran sut i reoli cregyn glas rhesog yn nalgylch Dŵr Cymru. Mae cregyn glas rhesog yn oresgynnol. Maent yn achosi difrod amgylcheddol helaeth ac yn broblem sylweddol i gwmnïau ddŵr, felly nod y gwaith yma yw darparu dealltwriaeth o'u dosbarthiad a phwyso a mesur yr opsiynau am sut i'w rheoli. Mae'r ffaith fod Llandegfedd yn ddalgylch ddŵr yfed yn ychwanegu dimensiwn ychwanegol at y dulliau o'u rheoli.

Mae'r astudiaeth hon wedi dod o hyd i crassula ar y safle hefyd. Am ein bod ni wedi dod o hyd i'r rhywogaeth yma'n gynnar, gallwn weithredu'n gyflym i atal ymlediad pellach.

Am ragor o fanylion am Rywogaethau Goresgynnol a'r gwaith i dacio'r rhywogaethau hyn yng Nghymru ewch i: biodiversitywales.org.uk/
[Gr-p-Rhywogaethau-Estron-Goresgynnol](#)

TarddLe

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau



Cynhadledd TarddLe 2022: Hwyluso Cydweithio Effeithiol

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd cynhadledd ddiweddaraf TarddLe a oedd yn cynnwys timau o Ddŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, sefydliadau'r trydydd sector, y Rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i drafod Hwyluso Cydweithio Effeithiol. Mae ein ffynonellau dŵr yfed yn wynebu sialensiau digyffelyb o'r pwysau ar ddefnydd tir a'r newid hinsawdd, ac ymhlith themâu allweddol y gynhadledd roedd:



Sut i gyflawni ein huchelgais 2050 i 'Ddiogelu dŵr yfed trwy reoli dalgylchoedd'.



Sut y gallwn weithio fel "Tîm Cymru" i gyflawni lluo o fuddion y tu hwnt i ddiogelwch dŵr yfed a fydd yn ein helpu ni i fynd i'r afael ag Argyfyngau Byd Natur a'r Hinsawdd.



Yr achlysur hwn oedd y cyfle cyntaf i fwrw ymlaen ag argymhellion Gweithgor Craidd yr Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth a gyhoeddwyd ar 3 Hydref 2022 dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS,.



Llunio map o'r ffordd i weithredu mewn ffordd effeithiol ac amserol ar y lefel briodol. Cyhoeddir Adroddiad TarddLe22 i rannu deilliannau'r achlysur hwn.

PestSmart

Ers 2015, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r diwydiant ffermio i dacio problem plaladdwyr sy'n dod i'r omlwg mewn dalgylchoedd penodol. Dangosodd y treialon hyn raddfa'r risg, a'r cyfleoedd i weithredu mewn ffordd ragweithiol a chydweithredol. Mae cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) wedi caniatáu i ni ehangu cwmpas y gwaith yma. Rydyn ni wedi ymestyn ein cynllun gwaredu plaladdwyr, sydd wedi casglu tua 25,000kg o blaladdwyr sy'n ddiangen, sydd wedi darford neu sydd heb drwydded. Rydyn ni wedi datblygu ymgyrchoedd pellach gyda'r sector amwynder a defnyddwyr domestig hefyd.

I gael rhagor o fanylion am ein hymgyrch PestSmart: corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/watersource/pestsmart

Prosiect Megaddalgylch Bannau Brycheiniog (BBMC)

Mae tîm rhaglen BMC yn parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i archwilio cyfleoedd i feithrin mwy o gysylltiadau a datblygu treialon cydweithredol ar lawr gwlad ar draws y Bannau. Rydyn ni'n credu'n gryf y gallwn gyflawni mwy trwy gyfuno ein hadnoddau nag y gallem trwy weithio ar ein pennau ein hunain. Un esiampyl gynnar yw'r llwyddiant i sefydlu Prosiect Tirwedd a Chymuned Taf Fechan yn nalgylch Pontsticill i dargedu gwelliannau i systemau dŵr preifat a thanciau septig, yn ogystal â gweithio gyda'r gymuned i gyflawni nifer o weithgareddau â'r nod o wella'r amgylchedd lleol er lles byd natur a'r bobl – ac mae hynny'n cynnwys cydweithio â Phartneriaeth Natur Leol Bannau Brycheiniog i hybu gwerth bioamrywiaeth mewn nifer o fannau gwyrdd cymunedol o gwmpas y pentref. Defnyddir canlyniadau'r cyfnod sefydlu yma i gynorthwyo'r gymuned leol i barhau i ddatblygu gwledigaeth ar gyfer y dalgylch.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Megaddalgylch Bannau Brycheiniog:

corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/watersource/brecon-beacons-mega-catchment

Taenu Gwair Gwyrdd yng nghronfa ddŵr Llys-y-Frân

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Taenwyd gwair gwyrdd a gasglwyd o ddolydd blodau gwyllt Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru er mwyn cyfoethogi un o ddolydd Llys-y-Frân yn gynharach eleni. Caiff y ddôl ei harchwilio'r tymor nesaf ac wedyn caiff y toriadau o'r ddôl honno eu taenu ar ardal arall y flwyddyn nesaf.

Gweithiodd gwirfoddolwyr o Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro gyda gofalwyr Llys-y-Frân a'r tîm bioamrywiaeth i helpu i daenu'r gwair gwyrdd. Dyma'r prosiect cyntaf i gael ei gyflawni gyda gwirfoddolwyr yn Llys-y-Frân ers i'r safle ailagor i'r cyhoedd yn 2021.

Y Gerddi Botaneg Cenedlaethol yn casglu hadau yng nghronfa ddŵr Llwyn-onn

Cynnydd tua'r nod:
Gwaith partneriaeth yn parhau



Bu pupur bach y dŵr pepper (*Persicaria minor*) a throethyll yr yd (*Spergula arvensis*) yn doreithiog yng nghronfa ddŵr Llwyn-onn eleni. Er mwyn cynorthwyo cadwraeth y rhywogaethau brodorol prin yma, trefnodd Dŵr Cymru fynediad i'r safle i'r Gerddi Botaneg, sy'n gweithio gyda Banc Hadau'r Mileniwm, i gynaeafu'r rhywogaethau. Nawr caiff yr hadau eu storio yn y Gerddi Botaneg ac ym manc hadau'r Mileniwm yn rhan o'r prosiect Fflora sydd dan Fygythiad yn y DU.

“

CAIFF HADAU O'R
PROSIECT EU STORIO
YN RHAN O'R PROSIECT
FFLORA SYDD DAN
FYGYTHIAD YN Y DU.

”

Deall Gweilch y Pysgod yn Llyn Brenig

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau



Er mwyn parhau i ddeall a chynnal Gweilch y Pysgod yn Llyn Brenig, rydyn ni wedi cyflawni nifer o astudiaethau o fewn y cyfnod adrodd hwn. Y diweddaraaf o'r rhain oedd astudiaeth i bennu lefel yr effaith y mae gweithgarwch dynol yn ei gael ar y gweilch sy'n nythu yn Llyn Brenig. Bydd y fîm yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allanol i roi unrhyw fesurau lliniaru a chadwraeth angenrheidiol ar waith.

Gosod Agrisound yn Llys-y-Frân a Rhostir Cog

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Yn ogystal â thaenu gwair gwyrdd yn Llys-y-Frân, gosodwyd technoleg arloesol newydd sbon o'r enw 'AgriSound' yno. Bydd hyn yn monitro presenoldeb peillwyr (gwenyn, gloÿnnod byw ac ati) yn ogystal â chasglu data ar y tymheredd, lleithder, llewylch ac acwsteg bob 60 munud. Rydyn ni wedi gosod dyfeisiau rheoli mewn mannau lle nad ydym wedi cyflawni gwaith gwella hefyd er mwyn ein galluogi i gymharu'r ddwy set data a chanfod manteision y gwaith gwella o ran gweithgarwch y peillwyr.

Gosodwyd yr un dechnoleg yng ngweithfeydd Treulio Anaerobig Rhostir Cog er mwyn canfod pa mor effeithiol yw hi.

Byddwn ni'n monitro tueddiadau o'r dyfeisiau yn fisol er mwyn canfod a ellir gweld unrhyw dueddiadau. Wedyn byddwn ni'n adolygu effeithiolrwydd y dyfeisiau ymhen blwyddyn i 18 mis ar ôl eu gosod, ac yn asesu'r deilliannau o ran a ddylem barhau i osod y dyfeisiau hyn ar draws safleoedd o fewn y busnes.

Gwlyptiroedd a llwybrau pysgod

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau

Yn rhan o raglen Llwybrau Pysgod AMP7 Dŵr Cymru, cyflawnwyd gwelliannau ar 54.8km o gynefinoedd afonol. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae rhaglen Llwybrau Pysgod a Lllyswod uchelgeisiol ar y gweill ar gyfer AMP8.

Yn rhan o'n rhaglen gwlyptiroedd, mae astudiaethau o hyfywedd ar waith mewn 7 o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff (GTDG) i bwysu a mesur a fyddent yn addas ar gyfer ateb ar sail gwlyptir o fewn y paramedrau angenrheidiol o ran ansawdd dŵr ar y safle. Mae fframwaith o wlyptiroedd mewn partneriaeth yn cael ei ddatblygu er mwyn caniatáu i Ddŵr Cymru gydweithio â phartneriaid dalgylch, a chyflawni atebion â buddion niferus. Mae'r holl bethau sy'n gyrru Maetholion PR24 yn cael eu sgrinio ar gyfer Atebion sy'n Seiliedig ar Natur (NBS), wrth i ni geisio ymgorffori NBS fel opsiwn busnes arferol.

Derbyniodd ein gwlyptir cydweithredol cyntaf yn Sir Henffordd lif am y tro cyntaf ym mis Medi 2022. Mae'r gwlyptir yma dan berchnogaeth a rheolaeth Cyngor Sir Henffordd er mwyn creu credydau maetholion i'r sector datblygu. Mae'r cynllun wedi bod yn un cydweithredol ar draws nifer o sectorau, a hwn yw'r cyntaf o'i fath.

Am fanylion:

dwrcymru.com/cy-gb/our-services/wastewater/river-water-quality/combined-storm-overflows/hereford



Stop Cyn Creu Bloc

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau



Parhawyd i gynnal cysylltiadau sylweddol o gylch yr ymgyrch 'Stoc Cyn Creu Bloc' yn ystod y cyfnod adrodd, a hynny ar raddfa genedlaethol a lleol. Yn ogystal â thynnu sylw at y difrod y gall cam-drin carthffosydd ei achosi o fewn y cartref, mae'r ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth am y difrod y gall blocio a cham-drin carthffosydd ei achosi i'r amgylchedd a bioamrywiaeth.

**CODI YMWEYBYDDIAETH
AM Y DIFROD Y GALL
BLOCIO A CHAM-DRIN
CARTHFFOSYDD EI
WNEUD I'R AMGYLCHEDD
A BIOAMRYWIAETH.**

Y Gronfa Amgylcheddol

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau, ar y trywydd iawn



Llwyddodd prosiect afonydd Menai i ddenu cyllid o gronfa amgylcheddol Dŵr Cymru. Mae'r prosiect yma'n cwmpasu nifer o fentrau ar draws dalgylch y Fenai, gan gynnwys:

➤ **Monitro Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS).**

➤ **Amddiffyn a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am ddwy o rywogaethau blaenoriaeth A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), sef llygod dŵr a dyfrgwn.**

➤ **Annog y cymunedau sy'n amgylchynu dalgylchoedd targed y prosiect i gymryd rhan ar sail wirfoddol, a ffurfio 'Rhwydwaith o Ofalwyr Afonydd'.**

Disgwylir cwblhau'r prosiect yma ym mis Mawrth 2024.

I gael rhagor o fanylion am ein cronfa amgylcheddol: corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/biodiversity-fund

Grŵp gwirfoddolwyr Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau



Dechreuodd y rhaglen hyfforddiant waliau cerrig i wirfoddolwyr, a gyflawnwyd gan y Gymdeithas Waliau Sychion, y broses o greu coridor bywyd gwyllt trwy'r coetir gyda mesurau lliniaru ar gyfer nadredd ac amffibiaid.

Cyflawnodd tîm o ofalwyr a gwirfoddolwyr waith i gynaeafu hadau clychau'r gog brodorol ar safle Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ruperra. Caiff yr hadau eu hau o gwmpas y pyllau a adferwyd yn y cronfeydd er mwyn helpu i gyfoethogi'r fflora brodorol ar lawr y coetir. Darparodd y gweithgarwch gyfle i drosglwyddo gwybodaeth hefyd, am i'r tîm ddysgu am y gwaith bendigedig sydd wedi cael ei wneud i gynnal a gwella coetir hynafol yr Ymddiriedolaeth.

Prosiect cydweithio CABI yng Nghanolfan Gwlyptir Llanelli

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau



Mae adroddiadau am bresenoldeb crassula, sy'n rhywogaeth oresgynol, yn dechrau cynyddu, a chadarnhawyd ei bresenoldeb yng Ngwlyptiroedd Llanelli. Yn rhan o brosiect ar y cyd rhwng Dŵr Cymru, CABI a Chanolfan Gwlyptir Llanelli, rydyn ni'n gweithio i reoli'r planhigion gan ddefnyddio dulliau rheoli biolegol — trwy waith arloesol CABI sydd wedi teilwra poblogaeth o widdon yn arbennig ar gyfer crassula.

Hyd yn hyn, dim ond ar y safle hwn y mae'r gwiddon wedi cael eu rhyddhau yng Nghymru. Cafodd y gwiddon eu rhyddhau yng Nghanolfan Gwlyptir Llanelli yn haf 2019, gyda rhagor yn cael eu rhyddhau yn 2020 a 2021. Ffeindwyd bod nifer fach o'r gwiddon wedi bwrw'r gaeaf ar y safle yng ngwanwyn 2020 ac yn 2021. Dangosodd ymweliad ar hap â'r safle ganlyniadau addawol pellach gyda llwyddiant dros y gaeaf, ac ymlediad y tu hwnt i'r ardal rhyddhau. Bydd gwaith rhyddhau a monitro pellach yn parhau wrth edrych tua'r dyfodol, yn ogystal â thrafodaethau i arbrofi â'r dull hwn ar ragor o safleoedd.



Canfod rhywogaethau o ffwng o bwys rhyngwladol

Cynnydd tua'r nod:
Yn parhau

Mae cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien yng Nghaerdydd yn adnodd naturiol unigryw o bwys ecolegol sylweddol a ddynodwyd yn SoDdGA am yr adar sy'n treulio'r gaeaf yno am ac am eu ffwng cap cwyr. Mae ffwng cap cwyr yn ddangosydd bendigedig o hen gynefinoedd glaswelltir, sy'n bwysig yn y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd am eu bod yn storio traean o garbon daearol y byd. Ers prynu'r safle yn 2016, rydyn ni wedi bod yn cydweithio'n agos â CNC i gyfoethogi'r cynefinoedd glaswelltir ar gyfer y ffwng cap cwyr, ac wedi cyflwyno trefn newydd o ran lladd gwair.

Cofnododd ein Harolwg diwethaf o Ffwng gyfanswm o 27 rhywogaeth o ffwng cap cwyr, sy'n rhagori'n fawr ar y meini prawf dethol ar gyfer SoDdGA. Cofnodwyd sawl rhywogaeth o ffwng ar y safle am y tro cyntaf, gan gynnwys dwy rywogaeth o Dermoloma, y mae'r ddau yn eithriadol o brin. Mae *D. magicum* yn rhywogaeth sydd dan fygythiad ar draws y byd, ac ychydig iawn ohonynt a gofnodwyd ym Mhrydain. Ffeindiwyd *Dermoloma* orall hefyd, a chadarnhawyd trwy ddefnyddio codau bar DNA ei fod yn rhywogaeth ddienw, a ffeindiwyd ond unwaith yn y byd o'r blaen (yn Nhwrci)! Trydydd ychwanegiad newydd nodedig at y fflora ffwng yw rhywogaeth o dafod y ddaear brown o'r grŵp *Microglossum olivaceum*, sydd â gwerth uchel o ran cadwraeth natur.

Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS)

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Yn rhan o'n hymgyrch fewnol i godi ymwybyddiaeth, eleni (2022) diweddarwyd ein llyfryn canllaw ar gyfer INNS a baratowyd gyntaf yn 2017, i gynnwys mwy o risgiau sy'n dechrau dod i'r amlwg na'r fersiwn flaenorol. Yn rhan o'r ymgyrch, cynhaliwyd tair sesiwn 'dysgu dros ginio' ar y cyd ag APEM, a ddenodd nifer dda o bobl ac a gafodd adborth da o ran lefel y cynnwys a'r cyflwyniad difyr. Mae hyn wedi helpu i sefydlu'r canllawiau mewn amrywiaeth eang o dimau ar draws y busnes.

Cynnydd mewn codwarth caled

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Grŵp o unigolion angerddol yw ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth sydd â diddordeb brwd mewn ecoleg, bioamrywiaeth a chadwraeth. Allan ar y safle, sylwodd un o'n hyrwyddwyr ar blanhigyn oedd yn edrych yn debyg o blanhigyn tsili roeddent yn ei dyfu gartref. Ond codwarth caled oedd y planhigyn, ac er nad INNS yw hi, mae ganddi eirin gwenwynig sy'n gallu achosi brech ar y croen. Hysbyswyd goruchwyllydd y safle am hyn er mwyn rhybuddio pobl i gadw pobl draw wrthi, a chafodd ei thynnu a'i gwaredu yn y ffordd briodol. Cofnodwyd y mater ar ein system iechyd a diogelwch fewnol (assure) a marciwyd yr ardal fel un i gadw llygad arni am aildyfiant yn y dyfodol.

Diwrnodau cymunedol

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Arwyddion newydd am fioamrywiaeth

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Ar 4 Tachwedd 2022, cynhaliodd Dŵr Cymru Welsh Water Ddiwrnodau Agored. Gwahoddwyd aelodau o'r gymuned leol i ymweld â'n Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn Llan-ffwyst, yr Wyddgrug, Llanelli, Parc y Sblot a Threborth i gwrdd â'n cydweithwyr a gweld sut rydyn ni'n cadw pethau'n llifo.

Yn ogystal â gweld sut mae dŵr gwastraff yn cael ei drin, cafodd ein cwsmeriaid wahoddiad i weld y tu fewn i garthffos gyda'n criwiau CCTV Rhwydweithiau Dŵr Gwastraff hefyd. Bu'r Tîm Llif Cleientiaid a'r Tîm Asedau Dŵr Gwastraff wrth law i rannu gwybodaeth am beth mae Dŵr Cymru'n ei wneud i wella ansawdd ein hafonydd.

”

**CAFODD Y GYMUNED
LEOL WAHODDIAD I GWRDD
Â'N CYDWEITHWYR A
GWELD SUT RYDYN NI'N
CADW PETHAU'N LLIFO.**

”

Ydych chi wedi gweld ein harwyddion newydd am fioamrywiaeth sy'n hyrwyddo'r dolydd blodau gwyllt ar draws ein safleoedd?

Yr adborth a gafwyd gan oruchwylwyr safleoedd oedd eu bod am wneud y peth iawn dros fyd natur, ond eu bod yn poeni am niweidio enw da'r cwmni pe bai cwsmeriaid yn cwyno am 'daclusrwydd' safleoedd sydd wedi tyfu'n wyllt. I fynd i'r afael â hyn, rydyn ni wedi cynhyrchu arwyddion newydd sydd i'w gweld ar yr holl safleoedd hyn.

Mae hynny yn ogystal â'r newidiadau i drefniadau cynnal a chadw tiroedd a roddwyd ar waith er mwyn caniatáu ar gyfer mwy o dwf rhwng toriadau ar y safle, er mwyn caniatáu i amrywiaeth ehangach o rywogaethau lewyrchu, ac er mwyn tarfu'n llai ar boblogaethau sydd wedi ymsefydlu.

Ystlumod Llandegfedd ar i fyny

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Bu angen i ni gyflawni gwaith ar gwlfert gorlif yn Llandegfedd gan weithio gyda'r Gynghair Cyfalaf yn ddiweddar. Roedd ardal y gwaith yn gartref i glwyd ystlumod, ac am y byddai'r gwaith yn tarfu ar y glwyd, bu angen i'r tîm wneud cais am drwydded ystlumod. Er mwyn creu cartref newydd i'r ystlumod, aeth y tîm ati i ddylunio ac adeiladu clwyd ystlumod artiffisial newydd. Mae'r glwyd newydd yn ddatblygiad bendigedig i'r ystlumod, a chafodd ei dylunio'n benodol at anghenion yr ystlum trwyn pedol lleiaf — sef rhywogaeth o ystlumod sy'n byw mewn ogofâu y mae'n well ganddynt fylchau lle gallant hedfan yn syth. Bydd yr ychwanegiad newydd yma'n rhoi amddiffyniad a chysgod iddynt am flynyddoedd mawr i ddod, a bydd yn lle gwyh i'r ystlumod gysgu'n gysurus dros y gaeaf.

Y Gronfa Gymunedol

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Grŵp Cymunedol Castle View

Defnyddiwyd y cyllid i ychwanegu basnau plannu mawr â phrysgwydd lluosflwydd er mwyn cyfoethogi ardal y grŵp cymunedol eto fyth. Roedd yna feinciau, gwelyau blodau gwyllt a gardd glöynnod byw eisoes yn yr ardal hon sy'n cael ei defnyddio'n helaeth gan drigolion yr ystâd ac sy'n cynnwys ardal byllau.

Ysgol Gymunedol y Porth

Bwriad y prosiect yma oedd defnyddio'r ardaloedd glaswelltog ar iard yr ysgol i dyfu dolydd blodau gwyllt, a fydd yn denu gwenyn a glöynnod byw. Bu'r gronfa gymunedol o gymorth hefyd i brynu basnau plannu a chompost fel y gall y plant weld â'u llygaid eu hunain pa mor bwysig yw gwenyn a glöynnod byw i'w hamgylchedd.

Ysgol Gynradd Llanbedr-y-fro

Yn ogystal â datblygu defnydd o'r pwll at ddibenion addysg awyr agored, gan ganiatáu i'r disgyblion astudio bioamrywiaeth, cyfrannodd y gronfa at brynu pecynnau bioamrywiaeth hefyd.

Y Prosiect Coetiroedd Cymunedol

Cynnydd tua'r nod:
Cwblhawyd



Llwyddwyd i ddiogelu cyllid gan y Loteri Treftadaeth (rhan o gronfa Llywodraeth Cymru a Choetiroedd Cymunedol Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) ar gyfer coedwig Gwern y Bendy a rhannau o goetiroedd Rhydypennau, sy'n sefyll o fewn safle cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien. Defnyddiwyd y grant i adfer a chyfoethogi'r coetir fel y gall lewyrchu am ddegawdau i ddod.

Mae'r datblygiadau allweddol hyd yn hyn yn cynnwys:



Parth Dysgu

Cliriwyd y gwastraff o goetir oedd wedi cael ei esgeuluso ac wedi tyfu'n wyllt ac fe'i paratowyd i greu parth dysgu ac ysgol y goedwig ar y safle.



Rheoli INNS ar y safle

Cliriwyd y Llawr-sirian o holl goetiroedd Rhydypennau.

“

BYDDWN NI'N
GWEITHIO GYDA
THRIGOLION CYFAGOS
HEFYD I GODI
YMWYBYDDIAETH
AM YR ANGEN AM
WAREDU GWASTRAFF
YR ARDD MEWN
FFORDD BRIODOL
YN HYTRACH NAG
O FEWN Y COETIR.

”

Datblygwyd gwybodaeth leol trwy drefnu Wythnos Cysylltu'r Cyhoedd, a roddodd gyfle i ni ddangos y gwaith rydyn ni wedi ei gyflawni hyd yn hyn. Esboniodd tîm y gofawyr y gwaith oedd wedi cael ei gyflawni i gyfoethogi ac adfywio'r coetir, gan dynnu sylw at y sensitifrwydd ecolegol a'r mesurau rydym yn eu cymryd i gydbwyso agor i'r cyhoedd â pharatoi ardaloedd o loches ar gyfer bywyd gwyllt Caerdydd.

Wrth symud tua'r hydref a'r gaeaf, byddwn ni'n ailgydio yn ein gwaith i reoli coetiroedd. Y tymor yma, byddwn ni'n canolbwyntio ar ein coetir hynafol yng nghoedwig Gwern y Bendy, a rheoli a chlirio rhywogaethau estron fydd ei blaenoriaeth bennaf. Byddwn ni'n gweithio gyda thrigolion cyfagos hefyd i godi ymwybyddiaeth am yr angen am waredu gwastraff yr ardd mewn ffordd briodol yn hytrach nag o fewn y coetir – gan dynnu sylw at y risg amgylcheddol o ledu rhywogaethau goresgynnol sy'n bygwth trechu a llesteirio ffyniant ein bywyd gwyllt a'n natur frodorol.

CYFRANIAD DŴR CYMRU AT BROSIECTAU AR GOST O FILIYNAU O BUNNOEDD I GYNNAL AFONYDD A CHORSYDD CYMRU

ADFER BYWYD MEWN PEDAIR AFON TRWY LIFE

“
DYMA'R UNION
FATH O BROSIECT
RYDYM YN AWYDDUS
I'W ARIANNU A'I
GYFLAWNI AR GYFER
EIN CWSMERIAID —
GWERTH GWYCH,
EFFAITH
GADARNHAOL WYCH.
”

**Gyda chymorth Rhaglen LIFE yr UE
a chyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru
a Dŵr Cymru, caiff £13.8 miliwn ei
fuddsoddi mewn sialensiau cadwraeth
dybyrd dros y pum mlynedd nesaf.**

Caiff dros £9 miliwn ei fuddsoddi mewn gwaith
i ddod â phedair afon yng Nghymru — sef afonydd
Teifi, Cleddau, Tywi ac Wysg — i gyflwr da, gan wella
tua 500km o afonydd i gyd. Yn ogystal â hyn, bydd
yna fuddsoddiad o £4.5 miliwn mewn gwaith i gynnal
corsydd crynedig. Bydd yr ardaloedd a dargedir
yn cynnwys Cors Crymlyn ar gyrion Abertawe, yn
ogystal â Thyddewi yn Sir Benfro a Phenrhyn Llŷn.
Yn ogystal ag adfer y corstir, bydd hyn yn helpu i
gynnal rhywogaethau prin iawn — gan gynnwys corryn
mwyaf Prydain, corryn rafft y ffen yng Nghrymlyn,
a glöyn byw brith y gors yn Sir Benfro a Gwynedd.

Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio dull aml-randdeiliad
o weithredu er mwyn helpu i gyflawni manteision
niferus o fewn Cymru, gan gydweithio'n agos
â pherchnogion tir, cymunedau a phartneriaid
lleol. CNC fydd yn cynnal Adfer Bywyd Pedair Afon
trwy LIFE mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc
Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yr Ymddiriedolaeth
Adfer Afonydd, Coleg Sir Gâr a Choed Cadw, gyda
chymorth ariannol pellach gan Ddŵr Cymru / Welsh
Water. Partneriaid Corsydd Crynedig LIFE CNC yw'r
Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdodau Parc
Cenedlaethol Eryri a Sir Benfro.

Bydd allbwn Adfer Bywyd Pedair Afon trwy LIFE
yn cynnwys gwella cynefinoedd afonol a'r amodau
ar gyfer pysgod mudol, yn ogystal â gweithio gyda
ffermwyr i wella coridorau afonydd a lleihau'r
sedimentau a'r maetholion sy'n mynd i'r afonydd.
Daw hyn â'r fantais ychwanegol o ddiogelu
cyflenwadau dŵr yfed pwysig hefyd.

Bydd allbwn Corsydd Crynedig LIFE yn cynnwys
adfer saith Ardal Gadwraeth Arbennig, y mae pedair
ohonynt yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, trwy
sicrhau bod lefel y dŵr yn iawn ar gyfer planhigion
a bywyd gwyllt arbenigol y corsydd crynedig, rheoli'r
prysgwydd a'r rhywogaethau estron goresgynnol sy'n
gallu llethu'r cynefinoedd naturiol, a gwella mynediad
fel y gall mwy o bobl brofi a mwynhau natur ar ei orau.

LIFE AFON DYFRDWY

CYFRANIAD DŴR CYMRU AT HELPU I DRAWSNEWID AFON DYFRDWY A'I DALGYLCHOEDD

Prosiect £6.8m yw prosiect LIFE Afon Dyfrdwy a ariennir gan nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Dŵr Cymru, i drawsnewid afon Dyfrdwy a'i dalgylch trwy adfer yr afon a'i hamgylchoedd i'w cyflwr naturiol. Afon Dyfrdwy yw afon fwyaf y gogledd, mae'n cael ei rheoleiddio'n dynn ac fe'i dynodwyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Bydd y prosiect, a ddechreuodd yn 2019 ac y bwriedir ei gwblhau yn Rhagfyr 2024, yn ymdrechu i gael gwared ar y rhwystrau i fudiad pysgod, ac yn gwella cysylltedd ecolegol ehangach, yn adfer neu'n gwella nodweddion ffisegol ar hyd y glannau, yn gwella arferion rheoli amaethyddol a thir coedwigaeth er mwyn lleihau mewnbwn maetholion a sediment a'u hatal rhag mynd i'r ACA, a sefydlu a meithrin perthnasau cadarnhaol hirdymor gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod a'r tu hwnt i oes y prosiect. Bydd y prosiect yn dechrau rheolaeth cadwraeth hefyd ar gyfer y gragen las berlog dŵr croyw sydd mewn perygl difrifol.

Am fanylion:

naturalresources.wales/about-us/our-projects/nature-projects/life-dee-river-project/?lang=cy

CWRDD Â'N HYRWYDDWYR BIOAMRYWIAETH

Mae gennym 12 o Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth yn Dŵr Cymru ar hyn o bryd, a byddwn ni'n parhau i recriwtio er mwyn ehangu ein rhwydwaith ymhellach. Unigolion angerddol sy'n rhannu gweledigaeth am fioamrywiaeth ac ecoleg o fewn Dŵr Cymru yw ein hyrwyddwyr. Maen nhw'n dod o holl ranbarthau a thimau'r cwmni, ac yn cyflawni rolau gweithredol a chynorthwyol. Yn ogystal â chynorthwyo cydweithwyr ag ymholiadau am fioamrywiaeth, maen nhw'n helpu i godi ymwybyddiaeth am ymgyrchoedd mewnol ac yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer gwella ar draws ein safleoedd gweithredol. Dyma beth oedd gan rai o'n hyrwyddwyr i'w ddweud am y rôl wirfoddol y maent mor angerddol yn ei chylch:



GEMMA

Beth sbardunodd dy ddiddordeb mewn bod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Dŵr Cymru?


Roedd fy nhraethawd hir am fy ngradd meistr ar rywogaethau goresgynnol ac mae ffocws cryf wedi bod ar fioamrywiaeth a chadwraeth yn fy nghysiau gradd. Mae fy rôl bresennol yn cynnwys gweithio gyda'r amgylchedd naturiol felly mae gen i wir ddiddordeb mewn gweithio gyda byd natur a'i wella.

Beth wyt ti'n ei fwynhau'r mwyaf am fod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth?

Hyd yn hyn, rydw i wedi mwynhau ymgyswrtio â'r sialensiau mewn rhannau eraill o'r busnes a beth maen nhw'n ei wneud.

Beth yw dy weledigaeth ar gyfer bioamrywiaeth o fewn Dŵr Cymru? Beth hoffet ti ei weld?

Hoffwn i weld ychydig o waith ymchwil lle gall arloesi ac economi cylchol gysylltu a lleihau'r risg i ansawdd dŵr crai, a fydd yn ei dro yn fanteisiol i'r amgylchedd, y busnes a'r cwsmeriaid.



DAVID

Beth sbardunodd dy ddiddordeb mewn bod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Dŵr Cymru?

Mae diddordeb gen i mewn Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad erioed, ac mae gen i radd yn y Gwyddorau Amgylcheddol gyda phwyslais ar ecoleg a bioamrywiaeth.

Beth wyt ti'n ei fwynhau'r mwyaf am fod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth?

Rwy'n mwynhau adeiladu blychau adar, cartrefi draenogod a chartrefi a gwestai i bryfed. Rwy'n mwynhau treulio amser allan ym myd natur hefyd.



RHODRI

Beth sbardunodd dy ddiddordeb mewn bod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Dŵr Cymru?

Fy angerdd dros fyd natur a chamdriniaeth y ddynol rhyw ohoni. Trwy ddod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Dŵr Cymru rwy'n gobeithio gwneud gwahaniaeth trwy ddefnyddio ein safleoedd i weithio ar fioamrywiaeth a'i chyfoethogi.

Beth wyt ti'n ei fwynhau'r mwyaf am fod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth?

Mae'n rhoi cyfle i mi ganolbwyntio ar rywbeth rydw i wir yn angerddol yn ei gylch, gyda'r nod o ddenu pobl eraill a mynd ati'n ymarferol i greu cynefinoedd / ffynonellau bwyd ar gyfer bioamrywiaeth ar ein safleoedd.

Wyt wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau bioamrywiaeth neu a oes rhywbeth ar y gweill?

Cyn Covid, fe gyflawnais i ambell i dasg grŵp fel plannu blodau gwylt / adeiladu gwestai chwilod yn ogystal â gweithio gydag ymddiriedolaethau bywyd gwylt lleol ar ddarnau penodol o dir er mwyn cyfoethogi'r bywyd gwylt yno.



REBECCA

Beth wyt ti'n ei fwynhau'r mwyaf am fod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth?

Dim ond yn ddiweddar y ddes i'n hyrwyddwr, ond rwy'n mwynhau bod yn rhan o gymuned o bobl o'r un anian a chael y cyfle i geisio cyfoethogi bioamrywiaeth ar draws Dŵr Cymru.

Wyt wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau bioamrywiaeth neu a oes rhywbeth ar y gweill?

Rydwy i wedi bod yn gweithio i gydlyn gwaith o fewn y Tîm Ynni er mwyn sicrhau ein bod ni'n rheoli ein safleoedd solar mewn ffordd sy'n cyfoethogi bioamrywiaeth gymaint â phosibl.



ELLIE

Beth wyt ti'n ei fwynhau'r mwyaf am fod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth?

Rwy'n mwynhau defnyddio fy sgiliau GIS i ddadansoddi gwahanol setiau data sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a chadwraeth er mwyn helpu Dŵr Cymru i gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol.

Wyt wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau bioamrywiaeth neu a oes rhywbeth ar y gweill?

Rydwy i wedi cyflawni gwaith dadansoddi gofodol ac ar sail data GIS sy'n troi o gylch asedau tir Dŵr Cymru, mathau o gynefinoedd ac ardaloedd a amddiffynnir.



CHRIS

Beth sbardunodd dy ddiddordeb mewn bod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Dŵr Cymru?

Rydwy i wedi bod yn angerddol dros yr amgylchedd erioed, a bioamrywiaeth yn benodol. Fe astudiais i Ddaeryddiaeth Forol yn y brifysgol gan arbenigo mewn ecoleg a gwyddor cadwraeth. Roeddwn i'n ffodus iawn i gyflawni prosiectau ymchwil yng Nghymru, Malta a Sbaen yn rhan o fy nghwrs gradd, ac ers hynny rydw i wedi gweithio dros ddwy elusen cadwraeth morfilod, y naill yn y gorllewin a'r llall yng Ngorsaf Maes Biolegol Bimini (Sharklab) yn y Bahamas – o am gael mynd nôl!

Beth wyt ti'n ei fwynhau'r mwyaf am fod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth?

Rwy'n dwlu cael gweithio dros gwmni nid-er-elw sy'n cyflawni cynifer o swyddogaethau hanfodol ar gyfer pobl Cymru a'r tu hwnt, a hynny wrth chwarae rhan yn y sgwrs o gylch stiwardiaeth amgylcheddol a chyfoethogi bioamrywiaeth – mae'n fy nghyffroi i i feddwl beth y gallwn ei gyflawni fel busnes gyda bioamrywiaeth mewn golwg.

Wyt wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau bioamrywiaeth neu a oes rhywbeth ar y gweill?

Yn rhan o fy lleoliad ar y rhaglen graddedigion, fe gyflawnais i brosiect i ddadansoddi'r potensial ar gyfer cyfoethogi bioamrywiaeth o fewn Cynhyrchu Dŵr, roeddwn i wrth fy modd yn rhoi fy mhrofiadau blaenorol ar waith yn Dŵr Cymru, ac mae'n rhywbeth rwy'n gobeithio gwneud mwy ohono.



GEMMA

Beth sbardunodd dy ddiddordeb mewn bod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Dŵr Cymru?

Fe astudiais i Beirianeg Sifil ac Amgylcheddol yn y brifysgol, felly mae diddordeb gen i mewn seilwaith ac amddiffyn a chyfoethogi'r amgylchedd erioed. Mae nifer o sialensiau amgylcheddol wedi codi yn fy rôl yn y tîm diogelwch argaeau, ac mae bod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth wedi helpu i ehangu fy ngwybodaeth ac wedi rhoi cyfle i mi rannu dysg ag eraill.

Beth wyt ti'n ei fwynhau'r mwyaf am fod yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth?

Rwy'n mwynhau clywed sut y mae'r busnes yn cyfoethogi bioamrywiaeth ac am fentrau newydd, a dysgu gan hyrwyddwyr eraill am sut maen nhw'n gwneud gwelliannau yn eu meysydd gwaith nhw.

Wyt wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau bioamrywiaeth neu a oes rhywbeth ar y gweill?

Ar hyn o bryd rwy'n edrych ar ymgorffori rhagor o nodweddion bioamrywiaeth ar safleoedd ein hargaeau yn y gogledd. Mae hyn yn cynnwys plannu bylbiau, hau hadau blodau gwyllt brodorol, codi blychau ystlumod ac adar a 'gwestai chwilod'.

DIWEDDARIAD AR GYNNYDD EIN HYMRWYMIADAU 'NEILLTUO AMSER AR GYFER NATUR 2020'

EIN GWASANAETHAU CRAIDD – CYFLENWADAU DŴR YFED

Ymrwymiad 1 Yn sgil cyhoeddi'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn 2019, byddwn ni'n parhau i ystyried yn benodol ein dyletswydd ynglŷn â bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau wrth gyflawni ein hadolygiad llawn nesaf o'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer 2024. Ymrwymiad cynllun 2020: 2024	Statws a Diweddariad Rydyn ni ar y trywydd iawn i gyflwyno'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol yn 2024. Yn rhan o'r cynllun hwn, rydyn ni'n dal i gynnwys bioamrywiaeth yn rhan o'r broses blaengynllunio. Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol Chwilio am ragor o gyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth a pharhau â'r holl waith INNS a bioddigolwch, gan gynnwys y prosiect ymchwil ar Drosglwyddo Dŵr Crai. Diweddariad ar gynnydd: Yn parhau, ar y trywydd iawn
Ymrwymiad 2 Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n rheoleiddwyr i wella ein dealltwriaeth o'r potensial i'n harferion ledaenu rhywogaethau estron goresgynol a goblygiadau posibl hynny o ran cost. Ymrwymiad cynllun 2020: Yn parhau	Statws a Diweddariad Fe lwyddon ni i hawlio allbwn INNS AMP7, oedd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am rywogaethau goresgynol, ein hymchwiliadau i Drosglwyddo Dŵr Crai gyda'r tîm Adnoddau Dŵr, a pharhad ein cyfraniad at fwrdd prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) er mwyn dylanwadu ar weithgarwch i reoli a lliniaru INNS ar lefel Cymru gyfan. I gael rhagor o fanylion am Rwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) ewch i: biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Rhywogaethau-Estron-Goresgynol Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol Parhau â'r gwaith INNS gan weithio tuag at ddull o weithredu ar sail dalgylch i reoli INNS a Throsglwyddo Dŵr Crai. Diweddariad ar gynnydd: Cwblhawyd Ymrwymadau Cynllun 2019–22
Ymrwymiad 3 Gan ddilyn ein dull gweithredu TarddLe, byddwn ni'n parhau i gydweithio ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn y trydydd sector. Bydd hyn yn rhan o'n rhaglen waith ar gyfer ein 23 Parth Diogelu, fel y gallwn weithio gyda'n gilydd tuag at agenda cyffredin er mwyn lleihau lefelau'r halogyddion fel plaladdwyr ac amonia sydd yn yr amgylchedd, er mwyn diogelu ein cyflenwadau dŵr ac er budd bywyd gwyllt. Ymrwymiad cynllun 2020: Yn parhau	Statws a Diweddariad Rydyn ni'n parhau i ddilyn dull 'TarddLe' o weithio wrth reoli dalgylchoedd. Mae hyn yn cynnwys: • Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. • Datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer ein 23 parth diogelu. • PestSmart – parhau â'r cynlluniau gwaredu plaladdwyr, ac â'r ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth domestig ac o ran amwynder. • Megaddalgylch Bannau Brycheiniog – parhau i ddatblygu rhaglen rhagweithiol o waith rheoli tiroedd a threialon cyswllt er mwyn gwella ansawdd y dŵr sy'n cyrraedd ein cronfeydd dŵr a'r afonydd rydym yn codi dŵr ohonynt. I gael rhagor o fanylion am ein prosiect TarddLe ewch i: corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/watersource Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol Diweddarw'r ymrwymiad i ddatblygu'r gwaith Dalgylchoedd er mwyn gwella ansawdd dŵr crai, a chyflawni gwelliannau o ran carbon a bioamrywiaeth yr un pryd lle bo modd. Diweddariad ar gynnydd: Cwblhawyd ymrwymadau Cynllun 2019–22

Ymrwymiad 4

Byddwn ni'n parhau i gydweithio â'n rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod prosesau dylunio a rheoli coedwigoedd a choetiroedd yn amddiffyn y tir rhag erydiad a thirlithriadau yn ogystal â chyflawni buddiannau lluosog. Wrth ddewis rhywogaethau i'w plannu, byddwn ni'n ystyried sut i sicrhau'r budd mwyaf i fioamrywiaeth.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Er mwyn cynorthwyo Dŵr Cymru i gyflawni ei fentrau plannu coed posibl ar gyfer cynllun Carbon Sero Net Dŵr Cymru, rydyn ni wedi datblygu prosiect banc hadau brodorol. Bydd hyn yn parhau i mewn i AMP8 a'r tu hwnt er mwyn hyrwyddo economi cylchol iach ar gyfer coed a blodau gwyllt brodorol, a phlanhigion dyfrol ar gyfer gwlyptiroedd hefyd o bosibl.

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda grŵp sy'n cynnwys nifer o wahanol randdeiliaid i gyflawni prosiect y Coedwigoedd Glaw Celtaidd mewn dau lecyn o goetir yng Nghwm Elan. Mae'r prosiect yma'n edrych ar ddulliau o reoli coetiroedd â'r bwriad o ddychwelyd yr ardaloedd penodol hyn i gyflwr ffafriol yn ogystal â rheoli INNS, a rhododendronau yn benodol, ar draws yr ystâd.

Rydyn ni wedi cyflawni nifer o gynlluniau plannu coed yn ein dalgylchoedd sy'n bwysig yn strategol o ran dŵr yfed. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd Tal-y-bont a Chantref. Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i gyflawni rhagor o gynlluniau a fydd yn cynnwys mentrau plannu coed posibl yn rhan o gynllun Carbon Sero Net Dŵr Cymru a gyhoeddwyd yn 2021.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Archwilio cyfleoedd i reoli coetiroedd ac ymchwilio i, a hybu plannu rhywogaethau brodorol yng Nghymru er mwyn gwella bioamrywiaeth, atafaelu carbon, a gwella ansawdd dŵr.

Diweddariad ar gynnydd:

Yn parhau, ar y trywydd iawn

Ymrwymiad 5

Byddwn ni'n chwilio am gyfleoedd newydd yn ein Canolfannau Ymwelwyr i gynorthwyo natur ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn yr amgylchedd naturiol.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Ar y targed

Statws a Diweddariad

Prosiect Gweilch y Pysgod

Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn bridio lwyddiannus gyda 2 gyw yn hedfan y nyth, y naill (KA9) — Gelert yn wrywaidd, a'r llall (X6) — Olwen yn fenywaidd, a chawsant eu henwi gan blant Ysgol Pant Pastynog. Cyn y tymor nythu, codwyd polyn, platfform a nyth newydd gyda chymorth Openreach a rhoddion y cyhoedd. Er mwyn amddiffyn yr adar nythu, bu G4S yn cyflawni patrolau diogelwch dros nos trwy'r tymor; mae 2 x system PID "Dalek" wedi bod yn monitro'r safle am ymyrwyr yn barhaus; a benthycodd Qioptic offer gweld yn y nos i ni ar gyfer gwyliadwriaeth gudd. Paratowyd cynllun Cadwraeth a chyflawnwyd gwaith monitro, sydd wedi canfod bod y gylchfa amddiffyn gyfredol yn dderbyniol ac nad yw ymyrraeth ddynol yn broblem. Mae'r RSPB wedi bod yn cynnal y guddfan drwy'r flwyddyn, gan gynnig cyfle i bobl weld yr adar o 140m i ffwrdd.

Am fanylion:

llynbrenig.com/cy/prosiect-y-gweilch

Prosiect peilot i adfer mawndiroedd

Ariannwyd y prosiect trwy gyfuniad o £30k o gyllid gan CNC a £40k o gyllid gan Ddŵr Cymru, a chaiff ei gyflawni erbyn diwedd Mawrth 2023. Y prif ddeilliannau yw trosi (fel cynllun peilot) 11ha o hen dir coedwigaeth i gyflwr a allai gynnal rhywogaethau sy'n ffurfio corsydd. Mae hynny'n cynnwys malu bonion, lefelu'r tir a chreu celloedd bwnd. Caiff yr ardal ei phlannu/hadu â rhywogaethau'r gors, a'i monitro o ran lefelau ac ansawdd y dŵr. Bydd y wybodaeth yn bwydo'r cam nesaf, gan gynnwys cynllun y mae CNC yn ei ddisgwyl fel amod o'r cyllid grant.

Yn ogystal, rydyn ni wedi codi un blwch ar gyfer tylluanod gwyn a disgwylir codi 1 arall y gaeaf hwn, ynghyd â 2 flwch i wiwerod coch a blwch i fele'r coed. Rydyn ni wedi hadu pyllau BV206 â rhywogaethau gwlyptir hefyd i'w troi'n ardaloedd bywyd gwyllt yn rhan o lwybr natur at y dyfodol.

Ymrwymiad 5
parhad

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol
Parhau i chwilio am gyfleoedd i ddeall a chyfoethogi bioamrywiaeth, atafaelu carbon, a gwella ansawdd y dŵr ar safleoedd ein hatyniadau ymwelwyr yn ogystal â chynnwys y gymuned leol gan ddefnyddio ein mentrau Cyfeillion.

Diweddariad ar gynnydd:
Cwblhawyd

EIN GWASANAETHAU CRAIDD – TRIN DŴR GWASTRAFF A RHEOLI DŴR WYNEB

Ymrwymiad 6
Byddwn ni'n cwblhau ein rhaglen buddsoddi gyfredol gwerth £60 miliwn ar gyfer 2015–2020 a gymeradwywyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwella gollyngiadau mewn 13 o weithfeydd trin dŵr gwastraff, er enghraifft trwy leihau lefelau'r ffosfforws er budd ecoleg y dyfroedd sy'n ei dderbyn.

Ymrwymiad cynllun 2020:
Mawrth 2021 – ar y targed

Statws a Diweddariad
Cyflawnwyd hyn a hawliwyd y deilliannau
Yn wreiddiol, roedd Rhaglen AMP7 yn cynnwys y 13 safle isod yn yr NEP ar gyfer y cyfnod o 2020 ymlaen, gyda 3 safle pellach yn yr NEP o 2015, y bwriadwyd eu cyflawni yn AMP7:

1. Eign (i'w gyflawni Mawrth 2024)
2. Rotherwas (i'w gyflawni Mawrth 2024)
3. Llanllieni (i'w gyflawni Mawrth 2024)
4. Kingstone a Madely (i'w gyflawni Mawrth 2025)
5. Weobley (i'w gyflawni Mawrth 2023)
6. Llanfair ym Mualt (i'w gyflawni Mawrth 2023)
7. Pontrilas (i'w gyflawni Mawrth 2025)
8. No Man's Heath (cyflawnwyd Rhag 2022)
9. Malpas (i'w gyflawni Mawrth 2025)
10. Tattenhall (i'w gyflawni Mawrth 2025)
11. Rhaeadr Gwy (i'w gyflawni Mawrth 2030)
12. Llandrindod (i'w gyflawni Mawrth 2030)
13. Whitchurch (i'w gyflawni Mawrth 2027)
14. Llanandras (i'w gyflawni Mawrth 2023)
15. Cleirwy (cyflawnwyd Rhag 2021)
16. Norton (cyflawnwyd Dec 2021)

Roedd yna 2 gynllun pellach a oedd yn rhai 'ambr' ar yr NEP sydd wedi cael eu datblygu i'w cyflawni ers hynny hefyd, sef:

17. Spittal
18. Llanarth

Cyfanswm y buddsoddiad ar gyfer tynnu Ffosfforws yn AMP7 yn ôl yr amcangyfrif gorau sydd ar gael yw £89m. Dylid nodi ein bod ni'n buddsoddi £60m pellach yn ystod cyfnod yr AMP cyfredol, a hynny er mwyn cyflawni rhai o gynlluniau tynnu Ffosfforws AMP8 yn gynnar.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol
Ymdrechu i ddatblygu ymrwymiad newydd a fydd yn gysylltiedig â'n cynlluniau ar gyfer PR24 hefyd. Yn ogystal, ymchwilio i sut y gallwn ymgorffori mwy o welliannau i fioamrywiaeth trwy'r cynlluniau hyn.

Diweddariad ar gynnydd:
Cwblhawyd

Ymrwymiad 7
Byddwn ni'n parhau i ymchwilio i effeithiolrwydd prosesau trin newydd i leihau'r ffosfforws yn ein gollyngiadau.

Ymrwymiad cynllun 2020:
Yn parhau

Statws a Diweddariad
Prif ffocws Dŵr Cymru ar gyfer yr ymrwymiad hwn yw gwlyptiroedd ac Atebion yn Seiliedig ar Natur (NBS). Mae gwaith adeiladu ar droed yn Luston, ac mae trafodaethau ar y gweill gyda Chyngor Henffordd am saith safle arall ar afon Llugwy.

Cwblhawyd yr asesiadau hyfywedd paratoadol ar gyfer cynllun peilot SMNR yn GTDG Tremeirchion. Am fanylion: corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/sustainable-management-of-natural-resources

Yn wahanol i'r canllawiau sydd ar gael yn Lloegr, mae Dŵr Cymru wrthi'n gweithio gydag ymgynghorwyr a CNC i ddrafftio polisi ar ffosfforws yng Nghymru.

Os yw ein treialon i wrthbwysu ffosfforws gydag EnTrade yn llwyddiannus yn ddiweddarach eleni, nid oes yna blatfform rheoliadol i wrthbwysu'r llwyth Ffosfforws rhwng y sectorau dŵr ac amaethyddiaeth ar hyn o bryd.

Rydyn ni'n parhau i chwarae rhan weithredol mewn grwpiau ymchwil cenedlaethol ar dynnu ffosfforws.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Mae yna fwriad i ddiweddarau'r ymrwymiad wrth edrych tua'r dyfodol.

Diweddariad ar gynnydd:

Yn parhau, ar y trywydd iawn

Ymrwymiad 8

Byddwn ni'n cwblhau ein rhaglen gyfredol o ymchwiliadau i'n heffaith ar 76 o gyrff dŵr mewndirol. Os cadarnheir taw ni yw'r prif reswm pam nad yw corff dŵr yn cyflawni Statws Ecolegol Da, byddwn ni'n cytuno (erbyn 2019) ar raglen o welliannau y dylem eu cyflawni yn y cyfnod rhwng 2020 a 2025. Yn ogystal â chwblhau'r rhaglen hon, byddwn ni'n parhau â'r gwaith yma trwy ymchwiliadau eraill.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Cwblhawyd

Statws a Diweddariad

Cwblhawyd yr ymchwiliadau ac ymgorfforwyd gwelliannau i raglen AMP7. Mae trafodaethau'n parhau gyda CNC ar sut i ddelio â chynlluniau nad ydynt yn fanteisiol o ran cost. Yn yr achosion hyn, rydyn ni'n cynnig gwelliannau trwy gyfuniad o welliannau yn ein gweithfeydd a gwelliannau yn y dalgylchoedd.

Caiff holl fuddsoddiadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) eu cytuno gyda CNC a'u pennu yn ein cynllun busnes ar gyfer AMP8. Bydd y rhain yn seiliedig ar ein data monitro ansawdd dŵr ni a data CNC, a chânt eu hadlewyrchu yng nghynlluniau rheoli Basnau Afonydd WFD CNC. Wrth i ni roi gwaith monitro i fyny ac i lawr y llif wedi ei flaenoriaethu ar waith ar gyfer CSOs yn AMP8, fe ffeindiwn ni ba asedau sy'n effeithio ar statws ein hafonydd, a bydd angen gwella'r rhain mewn cydsyniad â'n rheoleiddwyr.

Am fanylion:

corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/water-framework-directive-schemes

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Creu ymrwymiad newydd at y dyfodol i adlewyrchu'r gwaith yma.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd

Ymrwymiad 9

Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd i addysgu ein cwsmeriaid ynglŷn â'r difrod y gall camddefnyddio carthffosydd ei achosi, gan gynnwys i fywyd gwyllt morol.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Mae'r ymgyrch Stop Cyn Creu Bloc yn parhau i godi ymwybyddiaeth am gam-drin carthffosydd. Nod ein hymgyrch Stop Cyn Creu Bloc yw sicrhau bod cwsmeriaid yng Nghymru a rhannau o Henffordd yn cael y neges bod taflu pethau amhriodol i'r garthffos yn achosi bloc, gan achosi difrod yn eu cartrefi, eu cymunedau a'r amgylchedd ehangach. Eleni, rydyn ni am dargedu'r bobl hynny sy'n cam-drin carthffosydd yn rheolaidd gan ddefnyddio dulliau lleol o weithredu. Am fanylion: dwrcymru.com/stopcyncreubloc

Rhaglen barhaus yw hon sydd wedi cael ei hailwampio i atgoffa cwsmeriaid. Rydyn ni'n ymgyrchu gyda Llywodraeth Cymru i wahardd defnyddio plastigion untro, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir mewn weips. Am fanylion: corporate.dwrcymru.com/cy-gb/news-media/2020/plastic-wet-wipes-ban-has-majority-public-support

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Chwilio am gyfleoedd i integreiddio bioamrywiaeth i'r ymgyrchoedd hen a newydd yma.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd

Ymrwymiad 10

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i hyrwyddo ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â'r holl bwysau sy'n effeithio ar gyrff dŵr penodol, gan gynnwys ein heffeithiau ni.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Fe gynigion ni drwyddedau dalgylch yn rhan o'n hymateb integredig i gynhadledd Prif Weinidog Cymru ar ffosfforws yn Sioe Frenhinol Cymru. Rydyn ni wrthi'n datblygu cynigion i ategu ein dadl o blaid trwyddedau ar sail dalgylch i'w trafod â CNC.

Am fanylion:

corporate.dwrcymru.com/cy-gb/news-media/2022/welsh-water-to-invest-extra-100-million-pounds-before-the-end-of-2025-to-improve-river-water-quality

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Diweddarau'r ymrwymiad i adlewyrchu'r gwaith yma.

Diweddariad ar gynnydd:

Yn parhau, ar y trywydd iawn

Ymrwymiad 11

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ofwat a Chyfoeth Naturiol Cymru, i chwilio am ffyrdd o oresgyn rhwystrau rheoleiddiol a allai ein hatal rhag mabwysiadu mwy o ddulliau sy'n seiliedig ar natur i ymdrin â phrosesau trin a gwaith i reoli dŵr wyneb.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Rydyn ni'n defnyddio rhywfaint o'r cyllid ychwanegol ar gyfer CSOs i ategu ein cynllun GlawLif. Bydd hyn yn cynnwys rolau cydlynwyr a swyddogion cyswllt rhanbarthol i feithrin perthnasau a phartneriaethau ym mhob ardal â'r nod o hwyluso prosiectau rheoli dŵr mewn partneriaeth ledled Cymru.

Am fanylion: corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/rainscape

Rydyn ni wedi sefydlu rolau cyswllt ar gyfer yr afonydd hefyd i gydlynw gwaith gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ym mhob ardal er mwyn sicrhau gwelliannau mwy cynaliadwy ac effeithiol o ran ansawdd dŵr.

Rydyn ni'n mesur effeithiolrwydd y rolau cyswllt ar gyfer afonydd trwy nifer o weithgareddau. Rhaid cofio y gallai fod yn her pennu targedau oherwydd y ddibyniaeth ar gefnogaeth trydydd parti. Ein rôl ni, a rôl y swyddi hyn yw arwain yn ogystal â hwyluso'r newidiadau hyn. Ymhlith pethau eraill, mae'r mesurau'n cynnwys:

- cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ac UKRI i gyflawni gwelliannau i ansawdd afonydd a dŵr
- cael cyfraniadau at y sylfaen o dystiolaeth trwy Wyddor y Dinesydd
- nifer o Atebion yn Seiliedig ar Natur (NBS)
- meithrin cryfder a dyfnder perthnasau â chymunedau a grwpiau rhanddeiliaid
- cyflawni gwelliannau o ran ansawdd dŵr a bioamrywiaeth mewn cynefinoedd afonol i'w tracio trwy'r Gyfarwydddeb

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Mae angen ymrwymiad newydd i adlewyrchu datblygiad y prosiect hwn. Byddwn yn ymchwilio hefyd i sut y gallwn gynyddu bioamrywiaeth a bioddiogelwch o fewn y ffrwd gwaith yma.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd

ADDYSG**Ymrwymiad 12**

Byddwn ni'n parhau â'n rôl yn y gwaith o addysgu cenedlaethau'r dyfodol am bwysigrwydd yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys ei fflora a'i ffawna

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Cafodd ein sesiynau wyneb yn wyneb eu taro gan Covid-19 rhwng Mawrth 2020 ac Ebrill 2022, ond parhaodd y ddarpariaeth trwy ddulliau rhithiol.

Ail-agorodd y Ganolfan Addysg yng Nghilfynydd yn Ebrill 2022, gydag ysgolion a disgyblion yn dychwelyd am ymweliadau rheolaidd i fanteisio ar sesiynau addysg amgylcheddol yn yr awyr agored gyda'n tîm o athrawon ar secondiad. Ers Ebrill 2022, mae 669 o ddisgyblion wedi ymweld â'r ganolfan, a chyflawnwyd 90 awr o ddysgu uniongyrchol ar draws 23 ysgol.

Materion yn gysylltiedig â'r amgylchedd oedd y prif bynciau a drafodwyd yn ystod yr ymweliadau hyn. Mae hyn yn ogystal â'r 5,232 o ddisgyblion fu'n ymweld â chanolfan rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 cyn i Covid daro.

Cyfanswm nifer y cyfranogwyr a gymerodd rhan mewn sesiwn yn y ganolfan addysg amgylcheddol awyr agored a/neu a gafodd ymweliad â'u hysgol (yn rhithiol trwy gyflwyniad Teams byw yn ystod Covid neu wyneb yn wyneb) rhwng Ionawr 2019 a nawr yw 152,518. Mae hyn gyfwerth â 3,470 awr yng nghwmni'r genhedlaeth nesaf. Er bod y sesiynau'n rhannu amrywiaeth o negeseuon allweddol yr ymgyrch, bu materion amgylcheddol yn nodwedd amlwg yn llawer o'r sesiynau.

Mae ein strategaeth yn cynnwys mentrau cydweithredol cyson â Chadw Cymru'n Daclus, sy'n cynnwys ffrydio sesiynau Teams byw cydamserol i ystafelloedd dosbarth. Y mwyaf llwyddiannus o'r rhain oedd sesiwn i ddatlu COP26, a gyflwynwyd i dros 6,000 o ddisgyblion.

Mae'r Tîm Addysg yn cynorthwyo Groundwork gydag ymweliadau ag ysgolion yn Nant-yr-Aber ym mis Medi 2022.

Mae trafodaethau ar droed gydag Arweinydd Rhaglen Gogledd Cymru ynghylch sut y gall y Tîm Addysg gynorthwyo gweithgareddau SMNR i gysylltu disgyblion yr Nhremeirchion a Henllan yn y dyfodol pan fo hynny'n briodol.

I goel rhagor o wybodaeth am ein gwaith addysg, neu i drefnu ymweliad ar gyfer eich ysgol leol, ewch i:

corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/education

Diweddariad ar y Gronfa Gymunedol

Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, cynorthwywyd 41 o brosiectau Bioamrywiaeth trwy'r Gronfa Gymunedol, gyda chyfanswm o £14,300 yn mynd at wahanol brosiectau.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Ymrwmo i barhau i weithio gyda'r tîm addysg i godi ymwybyddiaeth yn y dyfodol.

Ymrwmo i gadw rhan o'r gronfa gymunedol ar gyfer gwelliannau amgylcheddol a bioamrywiaeth graddfa fach.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd

NEWID HINSAWDD

Ymrwymiad 13

Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd i gynyddu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella effeithlonrwydd ynni ein gweithrediadau presennol.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Yn rhan o'n rhaglen o waith i wella bioamrywiaeth ein safleoedd, byddwn ni'n hyrwyddo'r safleoedd hyn fel dolydd blodau gwyllt fel mater o arfer lle bo hynny'n ddiogel ac yn ymarferol.

Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd i gynyddu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella effeithlonrwydd ynni ein gweithrediadau presennol.

Diweddariad ar gynhyrchiant 2021/22

Solar: Rydyn ni wedi gosod paneli solar ar swyddfeydd Linea, Glaslyn (arae ychwanegol) a Chlydach, ac ar GTD Bryn Bolton a GTDG Pont-hir (arae ychwanegol). Fe ddechreuon ni waith gosod yn GTDG Caer ac yn GTDG Llanelli.

Hydro: Rydyn ni wedi adeiladu dwy orsaf cynhyrchu hydro yn 2021/22, y naill yn GTD Cantref a'r llall yng nghronfa ddŵr Grwyne Fawr.

Er mwyn lleihau'r defnydd o ynni, fe osodon ni chwythwyr newydd yn GTDG Caerdydd, ac rydyn ni yn y broses o osod chwythwyr newydd yn Rhostir Cog.

Ymrwymiad 13
parhad

Clustnodwyd 7 safle ychwanegol i osod chwythwyr dros y ddwy flynedd nesaf. Cyflawnwyd rhaglen o waith i osod goleuadau a gwresogyddion effeithlon o ran ynni eleni hefyd, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r safleoedd bellach wedi eu taclu â systemau gwresogi a goleuo clyfar sy'n lleihau'r defnydd o ynni.

Mae cyfyngiadau ar gynllunio ac ystyriaethau amgylcheddol yn parhau i gyfyngu ar ddatblygiadau hydro a gwynt mewndirol yn benodol hefyd. Gallai'r newid arwyddocaol nesaf i ni gynnwys technoleg solar arnofiol ar ein cronfeydd, am y byddai hynny'n cynnig nifer o fanteision, ac maent yn destun arbrofion ar yr un raddfa gan rai o'r cwmnïau dŵr eraill.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol
Diweddaru'r ymrwymiad i adlewyrchu gwaith parhaus a chynlluniedig i gyfoethogi bioamrywiaeth ar y safleoedd hyn, e.e. Parc PV Solar Llanelli.

Diweddariad ar gynnydd:
Cwblhawyd

Ymrwymiad 14
Byddwn ni'n ymchwilio i'r effaith y mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o'i chael ar yr amgylchedd ac ecosystemau erbyn 2050, ac yn amlinellu ein huchelgeisiau o ran ymchwil ar gyfer 2020–25 yn ein cynllun busnes nesaf.

Ymrwymiad cynllun 2020:
Yn parhau

Statws a Diweddariad
Rydyn ni wedi diweddaru ein strategaeth arloesi ac ymchwil yn 2022, a byddwn ni'n gwneud y hynny eto yn 2027. Bydd hyn yn parhau i ddisgrifio ein blaenoriaethau ymchwil. Byddwn ni'n cyhoeddi ein DWMP yn 2027 hefyd, a fydd yn tynnu sylw yn benodol at sialensiau'r newid yn yr hinsawdd mewn perthynas â gwasanaethau draenio a dŵr gwastraff.

Mae gennym nifer o raglenni ymchwil ar y gweill ar gyfer AMP8 mewn perthynas ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ym meysydd bioamrywiaeth ac INNS. Cymharol ychydig o waith ymchwil sydd ar gael am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau dyfrol a rheoli priddoedd, a bydd hynny'n hanfodol i ddeall Ansawdd Dŵr a pharatoi ar gyfer y risgiau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn ni'n manteisio ar ein perthnasau â'r byd academaidd yn hyn o beth, ond bydd hi'r un mor bwysig i ni sicrhau bod ein hanghenion ymchwil penodol yn cael eu diwallu os na fydd y byd academaidd yn codi'r rhain trwy UKRI. Rydyn ni'n gwybod eisoes y gallai'r cynnydd yn nhymeredd y dŵr olygu diwedd yr eog mewn llawer o'n hafonydd erbyn 2050. Yn ei dro, gallai newid o'r math yma effeithio ar ddynodiadau a safonau amgylcheddol, a dyna pam ei bod hi mor bwysig fod gennym ddealltwriaeth gadarn ohono.

Mae'r tîm Ynni wedi cyhoeddi targedau a strategaeth Dŵr Cymru i leihau cyfraniad y cwmni at y newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriannau i sero erbyn 2040, gyda tharged i leihau allyriannau 90% erbyn 2030 o gymharu â lefelau 2010.

Mae grŵp AilFeddwl newid hinsawdd Dŵr Cymru yn parhau i gyfarfod yn fisol i drafod y cyfleoedd a'r risgiau o gylch y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Trwy wahodd siaradwyr allweddol o bob rhan o'r busnes, gall y grŵp greu cyfleoedd i gydweithio a chael gwell dealltwriaeth o'r pwysau mewnol y mae gwahanol adrannau yn eu hwynebu, a sut y cynllunnir ar gyfer y rhain. Mae prosiectau byw yn gweithredu, gan gynnwys canfod sut y gallwn ailgylchu'r plastigau sy'n cael eu sgrinio allan yn y GTDG; sut i ailgylchu offer amddiffynnol personol i wneud cynnyrch defnyddiol fel cotiau i gŵn; datblygu offeryn addysgol i helpu cydweithwyr i ddysgu am yr amgylchedd; a chynghori a herio cydweithwyr ar faterion cludiant gwyrdd.

Mae tîm arloesi Dŵr Cymru'n parhau i arwain ar gyfleoedd ymchwil, gan gynnwys prosiectau sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Dyma ddau brosiect sydd ar droed eisoes:

Prosiect Ymchwil gyda Phrifysgol Bangor

Ar ddarogan perygl o lifogydd. Mae'n edrych ar erydiad arfordirol a allai effeithio ar ein hasedau ar ochr ddwyreiniol y wlad y credir ei fod yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Synwryddion WATR

Rhoddwyd cyfres o synwryddion ar waith yn afon Wysg ac yn y llifoedd elifiant terfynol er mwyn mesur DO, pH, amonia ac afloywder. Dros gyfnodau hir o fonitro, gall y rhain helpu i ddangos newidiadau posibl yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Gyda phatrymau glawiad mwy dwys a chyson, gallem weld ymchwydd yn yr effeithiau ar gyrsgau dŵr o ran y penderfynyddion hyn — a byddai modd ymestyn hyn hyd 2050 ar sail y rhagolygon o ran yr hinsawdd ar draws Cymru, a allai amlygu effeithiau rhyddhau dŵr storm ar gyrsgau dŵr a'r arfordir, gan gysylltu nôl â'r amgylchedd ac ecosystemau.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Diweddaru'r ymrwymiad i adlewyrchu cynnydd y prosiect o'r gwaith cynllunio nes ei roi ar waith.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd

GOFALU AM SAFLEOEDD A AMDDIFFYNNIR

Ymrwymiad 15

Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio "Cronfa Ddata Camau Gweithredu" Cyfoeth Naturiol Cymru i glustnodi a mynd i'r afael â phroblemau yn y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd dan ein perchnogaeth.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Gohiriwyd / caewyd

Statws a Diweddariad

Nid yw cronfa ddata CNC ar gael eto. Rydyn ni yn Dŵr Cymru wrthi'n gweithio ar ein cronfa ddata fewnol ein hunain i gynorthwyo ein hastudiaethau gwaelodlin a gweithio tuag at enillion net o ran bioamrywiaeth.*

Yn rhan o'n deilliannau NEP ar gyfer AMP7, rydyn ni'n sefydlu beth yw perthynas Dŵr Cymru â safleoedd dynodedig yn ogystal â rhywogaethau a amddiffynnir o dan adran 7 a allai fod yn agos at y safleoedd hyn. Byddwn ni'n chwilio am gyfleoedd ar ein safleoedd a'r cyffiniau i'w cyfoethogi er mwyn cynyddu coridorau a chysylltedd lle bo modd.

Lle bo modd, byddwn ni'n defnyddio cronfeydd data i gael gwybodaeth am safleoedd SoDdGA. Mae CNC wedi datblygu cronfa ddata newydd a fydd yn cynorthwyo'r gwaith yma.

Dyma'r asesiad gwaelodlin o safleoedd a amddiffynnir a luniwyd gan CNC yn 2020:

naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/protected-sites-baseline-assessment-2020/?lang=cy

*Offeryn Lloegr yw'r cynnydd net mewn bioamrywiaeth ac mae'n defnyddio metrics Bioamrywiaeth 3.1 Defra. Nid oes gennym offeryn yng Nghymru eto — mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac mae'n debygol o fod yn wahanol i fersiwn Lloegr am y bydd yn ddull sy'n seiliedig ar fuddion net i fioamrywiaeth.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Mae angen ymrwymiad newydd i adlewyrchu'r cyfeiriad newydd sydd ei angen ar Ddŵr Cymru ac er mwyn ymgorffori'r offer a'r metrics newydd. Mae Dŵr Cymru'n parhau i fonitro safleoedd dynodedig ac yn chwilio am gyfleoedd i wella.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd — disodlwyd

Ymrwymiad 16

Gan barhau i weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru,

Statws a Diweddariad

Cyflawnir hyn trwy ein hastudiaethau gwaelodlin o fioamrywiaeth sydd eisoes ar droed, gyda'r 100 safle cyntaf yn adrodd ym mis Medi.

Ymrwymiad 16 parhad

byddwn ni'n dechrau cyflawni ymchwiliadau i gyflwr y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd dan ein perchnogaeth, ac yn datblygu rhaglen wella i'r fath raddau ag y bo hynny'n gyson ag ymarfer ein swyddogaethau.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Caiff yr holl safleoedd dynodedig eu harolygu o fewn y cylch nesaf o astudiaethau gwaelodlin. Rydyn ni'n disgwyl eglurder pellach ar gynnydd Ofwat wrth wneud astudiaethau gwaelodlin bioamrywiaeth yn arfer safonol dan gylch 4 blynedd gydag adroddiadau blyneddol.

Mae rhaglenni gwella wedi cael eu datblygu ar gyfer AMP8 gan gynnwys coetiroedd a'n hasedau sydd o fewn yr ardaloedd dynodedig. Mae hi'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r rhestr o rywogaethau blaenoriaeth a allai effeithio ar ein hasesiadau/dulliau o weithredu wrth edrych tua'r dyfodol (gallai'r rhestr gynnwys dros 3000 o rywogaethau).

Mae adroddiad Ricardo ar SoDdGA ar gael erbyn hyn i fwydo penderfyniadau mewn 4 o'n hardaloedd dalgylch sy'n SoDdGA, a chaiff cynlluniau gweithredu ar gyfer safleoedd penodol eu datblygu er mwyn rhoi newidiadau ar waith i ddychwelyd y safleoedd hyn i gyflwr ffafriol. Bydd Dŵr Cymru'n cynnal gweithdy i drafod y gwaith yma gyda CNC a sut byddwn ni'n mynd ati ym mis Tachwedd 2022.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Ymrwymiad i'w ddiweddaru i adlewyrchu'r camau nesaf.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Ymrwymiad 17

Byddwn ni'n parhau i wahodd ceisiadau gan sefydliadau nid er elw am gyllid grant i gyflawni prosiectau a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr lle bydd cyrff dŵr nad ydynt yn cyflawni Statws Ecolegol Da yn cael budd o hynny, a lle bo cysylltiad sylweddol â gweithrediadau a buddiannau Dŵr Cymru.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Mae nifer y ceisiadau sydd wedi dod i law yn ystod y cyfnod adrodd hwn wedi bod yn isel, ond gellir priodoli hynny i'r pandemig ac i fethiant i gyflawni'r meini prawf cymhwyster o drwch blewyn.

Hyd yn hyn, dyfarnwyd £148K, a neilltuwyd £84K pellach hyd ddiwedd yr AMP cyfredol. Rydyn ni'n dal i fod yn agored i geisiadau ac yn annog y rhai sydd â diddordeb i ymgeisio.

Mae rhagor o fanylion am rai o'r prosiectau llwyddiannus yn ein hastudiaethau achos a amlinellwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn ac maent yn cynnwys:

- Amgueddfa Gweithfeydd Dŵr Henffordd
- Adfer Bywyd Afonydd trwy LIFE
- Afonydd Menai Menter Môn
- Gosod technoleg Agrisound yn Llys-y-Frân
- Adfer mawndir Brenig

Croesewir ceisiadau o hyd — mae'r manylion ymgeisio yma:

corporate.dwr.cymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/biodiversity-fund

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Ymdrechu i uno'r ymrwymiad hwn ag ymrwymadau tebyg.

Diweddariad ar gynnydd:

Yn parhau, ar y trywydd iawn

Ymrwymiad 18

Parhau i ystyried rôl grwpiau "Cyfeillion" a grwpiau cymunedol eraill a allai fabwysiadu rhai o'n safleoedd a'n cynorthwyo i'w rheoli.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Sefydlwyd grŵp yn Llys-faen a Llanisien. Y safle nesaf fydd Llys-y-Frân (â'r ymgyrch i ddechrau ym mis Medi).

Grŵp gwirfoddolwyr Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd

Ers Mai 2020, mae Dŵr Cymru wedi bod yn meithrin cysylltiadau â chymuned leol cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien yn y bwriad o ffurfio Grŵp Cyfeillion. Ym mis Gorffennaf 2021, daeth y gymuned at ei gilydd ar

safle'r gronfa i sefydlu Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd dan gyfansoddiad ffurfiol. Hwn yw grŵp Cyfeillion gwirfoddol cyntaf Dŵr Cymru, ac mae hi wedi ein galluogi ni i hwyluso perthynas gefnogol â'r gymuned wrth gyflawni prosiectau gwirfoddol i baratoi'r safle cyn iddo agor i'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth am ecoleg sensitif y safle, a chyfoethogi bioamrywiaeth leol.

Ymhlith y prosiectau allweddol hyd yn hyn mae

Rhaglen o hyfforddiant i ddysgu gwirfoddolwyr i adeiladu waliau cerrig gyda'r Gymdeithas Waliau Sychion a ddechreuodd y broses o greu coridor bywyd gwyllt trwy'r coetir. Bydd y wal gerrig yn creu cynefin ar gyfer nadredd llwyd ac amffibiaid ac yn denu amrywiaeth o fywyd gwyllt fel gloŷnnod byw ac adar. Bu ein tîm o ofalwyr a'n gwirfoddolwyr yn cynaeafu hadau rhywogaethau brodorol o glychau'r gog yn Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ruperra. Cafodd yr hadau eu hau o amgylch y pyllau sydd wedi cael eu hadfer yn y cronfeydd er mwyn helpu i gyfoethogi'r fflora brodorol ar lawr y coetir. Bu'r gweithgaredd yn gyfle i rannu gwybodaeth hefyd, am i'r tîm ddysgu am y gwaith bendigedig sy'n cael ei wneud i gynnal ac adfer y coetir hynafol.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Datblygu'r ymrwymiad ymhellach er mwyn creu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i gyfoethogi bioamrywiaeth.

Diweddariad ar gynnydd:
Cwblhawyd

Ymrwymiad 19

Byddwn ni'n parhau i wahodd ceisiadau gan sefydliadau nid er elw am gyllid tuag at brosiectau a fydd yn helpu i atal, lleihau, dileu neu reoli'r perygl o rywogaethau estron lle bo rhyw gysylltiad â gweithrediadau Dŵr Cymru.

Ymrwymiad cynllun 2020:
Yn parhau

Statws a Diweddariad

Llwyddodd prosiect Afonydd Menai yn ei gais am gyllid o gronfa amgylcheddol Dŵr Cymru. Mae'r prosiect yma'n cwmpasu nifer o fentrau ar draws dalgylch y Fenai.

Lansiwyd nifer o ymchwiliadau i ganfod graddfa rhai INNS ar draws ein safleoedd, gan gynnwys ymchwil i'r Cregyn Glas Rhesog yn Llandegfedd a arweiniodd at ddarganfod crassula.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Cysylltu hyn ag ymrwymiad 17.

Diweddariad ar gynnydd:
Cwblhawyd

EIN POBL

Ymrwymiad 20

Byddwn ni'n parhau i roi cyfle i'n holl gydweithwyr ddysgu am rwymedigaethau cyfreithiol Dŵr Cymru o ran cadwraeth.

Ymrwymiad cynllun 2020:
Cwblhawyd

Statws a Diweddariad

Rydyn ni wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn trwy gymryd y camau canlynol:

- Diweddaru'r dudalen bioamrywiaeth
- Cysylltiadau cyson i godi ymwybyddiaeth trwy'r newyddlenni wythnosol mewnol, e.e. am ystlumod ac INNS
- Darpariaeth e-ddysgu (a gaiff ei diweddaru yn AMP8 os nad ynghynt)
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth rheolaidd gyda phartneriaid y gynghrair a thimau mewnol
- Cynnal sesiynau trosglwyddo amgylcheddol er mwyn tynnu sylw gweithredwyr safleoedd/perchnogion asedau am y rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ynghlwm wrth drefniadau trwyddedu a monitro.

Mae yna le i wella o hyd am ein bod wedi gweld nifer o achosion o dor-amod yn ystod y cyfnod adrodd, er enghraifft methiant i ddiogelu'r drwydded gywir cyn mynd i ardal ddynodedig. Byddwn ni'n parhau i ddiweddaru'r gweithdrefnau a chodi ymwybyddiaeth fel bod yr arferion hyn yn dod yn fater o arfer i'r busnes.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Diweddaru'r ymrwymiad i adlewyrchu'r gwaith pellach y mae angen parhau ag ef.

Ymrwymiad 20 parhad	Diweddariad ar gynnydd: Yn parhau, ar y trywydd iawn
Ymrwymiad 21 Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd (e.e. drwy ddulliau cyfathrebu a chystadlaethau mewnol) i ffrwyno brwdfrydedd ein cydweithwyr i helpu byd natur wrth eu gwaith pob dydd yn darparu wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Ymrwymiad cynllun 2020: Yn parhau	Statws a Diweddariad Rydyn ni wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn trwy gymryd y camau canlynol: Bydd cyfathrebu mewnol ac allanol yn canolbwyntio ar rannu newyddion da ac unrhyw wersi a ddysgwyd o'n mentrau, er mwyn gwella defnydd effeithiol o'n hadnoddau ac adnoddau trydydd parti. Lluniwyd calendr o gerrig milltir gyda'r holl ddyddiadau allweddol o ran bioamrywiaeth er mwyn atal dyblygu gwaith bob blwyddyn. Mae canllawiau adnabod INNS newydd ar gael yn ogystal â chanllawiau ar fawndiroedd, rheoli glaswelltir a rhywogaethau a amddiffynnir. Parhau i ddiweddarau'r canllawiau pan fo angen gyda'r gwahanol faterion sy'n codi. Mynychu cyfarfodydd tîm er mwyn codi ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth a'n dyletswydd o dan adran 6. Mae'r gêm torri'r ia am fioamrywiaeth yn ffordd dda o gysylltu timau wrth ddychwelyd yn sgil trefniadau gweithio Covid. Mae methodoleg Rheoli Adnoddau Naturiol mewn Ffordd Gynaliadwy (SMNR) yn cael ei datblygu. Cynigiwyd sefydlu egwyddorion SMNR yn ein cod ymarfer. Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol Diweddarau'r ymrwymiad i adlewyrchu cyfleoedd pellach. Diweddariad ar gynnydd: Cwblhawyd
Ymrwymiad 22 Byddwn ni'n parhau i godi ymwybyddiaeth am ein dyletswyddau bioamrywiaeth ymhlith ein contractwyr drwy ein trefniadau cytundebol a'n proses gaffael, a byddwn ni'n annog ein contractwyr i chwarae eu rhan er mwyn helpu i gyflawni ein dyletswydd wrth iddynt weithio ar ein rhan. Ymrwymiad cynllun 2020: Yn parhau	Statws a Diweddariad Mae'r tîm bioamrywiaeth yn chwarae rhan ymarferol yn y broses dendro gyda'r tîm caffael, gan gynnwys fframweithiau mawr a bach ar gyfer contractau sifil, trydanol a mecanyddol, ac maent yn cyflawni gwaith cynaliadwyedd pellach gyda'r tîm. Mae'r holl gontractwyr yn ymwybodol o'r ddyletswydd dan Adran 6, ein diwylliant o ran bioamrywiaeth, ein strategaeth bioamrywiaeth a'n cynllun (yn rhan o'r broses dendro a chontractio). Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol Diweddarau'r ymrwymiad yma i ymgorffori caffael ymhellach i'r broses er mwyn sicrhau'r manteision gorau ar gyfer bioamrywiaeth. Diweddariad ar gynnydd: Cwblhawyd
Ymrwymiad 23 Byddwn ni'n parhau i rannu'r "Canllaw i Adnabod Rhywogaethau Estron Goresgynnal" a fydd yn cynnwys diweddariadau tymhorol, â'n cydweithwyr. Ymrwymiad cynllun 2020: Yn parhau	Statws a Diweddariad Lansiwyd fersiwn ddiwygiedig o'r canllaw INNS ym mis Mai 2022, gyda thair sesiwn dysgu dros ginio ar y pwnc. Mae canllawiau adnabod newydd ar gael ar Source am wybodaeth ychwanegol. Symleiddiwyd y system adrodd fewnol ar gyfer INNS a bydd ar gael ar ffurf ap yn gynnar yn 2023. Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol Diweddarau'r ymrwymiad a cheisio cysylltu hyn ag ymrwymiadau pellach o ran INNS. Diweddariad ar gynnydd: Cwblhawyd

Ymrwymiad 24

Ehangu ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth i gwmpasu pob rhan o'r busnes. Annog yr hyrwyddwyr i barhau â'u gwaith gwyb yn ogystal â chwilio am gyfleoedd newydd i gynorthwyo byd natur.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Mae gennym 12 Hyrwyddwr Bioamrywiaeth newydd o bob rhan o'r busnes (dŵr gwastraff, dŵr glân a gwasanaethau cynorthwyl). Dim ond nawr mae'r gwaith yma'n ailddechrau go iawn yn sgil cyfyngiadau Covid, ond mae gan ein hyrwyddwyr gynlluniau cyfoethogi graddfa fach bendigedig ar y gweill eisoes. Rydyn ni'n awyddus bob amser i recriwtio rhagor o hyrwyddwyr, a byddwn ni'n ymdrechu i wneud hynny.

Gallwch gwrdd â rhai o'n Hyrwyddwyr yn gynharach yn yr adroddiad hwn!

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Diweddaru'r ymrwymiad i adlewyrchu uchelgeisiau'r hyrwyddwyr.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd

Ymrwymiad 25

Byddwn ni'n adolygu'r holl syniadau o sylwedd a gododd o'r gweithdy bioamrywiaeth er mwyn asesu pa mor ymarferol ydyn nhw; eu gwerth posibl; ac yn eu blaenoriaethu.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Rhaid ailgyflawni'r ymarfer hwn yng ngoleuni'r holl sialensiau newydd er mwyn sicrhau bod ein cynllun gweithredu'n ddigon uchelgeisiol i fodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Ymdrechu i drefnu gweithdai wrth lansio'r cynllun gweithredu ar y strategaeth, a chasglu gwybodaeth ar gyfer y Cynllun Bioamrywiaeth nesaf ar gyfer 2023. Byddwn ni'n ymdrechu hefyd i drefnu gweithdai pellach ar amryw o bynciau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys ein dulliau o gyflawni astudiaethau gwaelodlin a diweddaru ein strategaeth. Byddwn ni'n cynnal gweithdy astudiaethau gwaelodlin gyda'n rheoleiddwyr ym mis Tachwedd er mwyn pennu'r ffordd orau o fynd ati i gyflawni astudiaethau gwaelodlin yng Nghymru yn y dyfodol.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Diweddaru'r ymrwymiad i adlewyrchu'r dull newydd o weithredu mewn perthynas â gweithdai.

Diweddariad ar gynnydd:

Yn parhau, ar y trywydd iawn

Ymrwymiad 26

Wrth gaffael ein contractau cynnal a chadw tiroedd nesaf, byddwn ni'n annog y rhai sy'n cyflwyno tendrau i ystyried buddionau o ran bioamrywiaeth ac yn hybu arferion gorau er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd.

Ymrwymiad cynllun 2020:

Yn parhau

Statws a Diweddariad

Daeth contract cynnal a chadw tiroedd newydd i rym ddechrau Hydref 2022. Rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos â'r tîm coffael o ran arferion gorau wrth hyrwyddo bioamrywiaeth ar draws ein safleoedd, gan sefydlu diwylliant newydd ar gyfer safleoedd 'blewog' (sy'n cael eu gadael i dyfu) lle bo hynny'n ddiogel, gyda ffocws hefyd ar reoli a dileu INNS.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Diwygio'r ymrwymiad er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar gynnal a chadw tiroedd mewn ffordd sy'n cyfoethogi bioamrywiaeth ar draws ein hasedau fel mater o fusnes fel arfer yn ein gwaith caffael.

Diweddariad ar gynnydd:

Cwblhawyd

Ymrwymiad 27

Byddwn ni'n parhau i adolygu ein gweithdrefnau (yn fewnol ac ar y cyd â Phartneriaid y Gynghair) i ffurfioli'r ffordd y dylid ystyried manteision bioamrywiaeth posibl (gan gynnwys gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd) wrth ddylunio cynlluniau cyfalaf ac, os yw'n berthnasol, y gwaith parhaus o'u cynnal a'u cadw.

Statws a Diweddariad

Gan gydweithio'n agos â'r Gynghair Cyflawni Cyfalaf (CDA), cytunwyd na fydd unrhyw golledion net o ran bioamrywiaeth yn ystod cyfnod yr AMP hwn wrth i'r timau weithio tuag at sefydlu'r prosesau ar gyfer enillion net yn AMP8 (neu cyn hynny os oes modd). Mae CDA wedi datblygu offeryn i helpu i gofnodi Enillion Net o ran Bioamrywiaeth ar gyfer cynlluniau cyfalaf i'w defnyddio gyda chynlluniau mwy. Os na ellir cofnodi'r enillion net o ran bioamrywiaeth yn syml ar gyfer cynlluniau llai, byddwn ni'n mynd am welliannau llai ar y safleoedd hyn. Byddwn ni'n adolygu'r dull yma o weithio pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r matrices i'w ddefnyddio yng Nghymru.

Ymrwymiad 27
parhad

Ymrwymiad cynllun 2020:
Yn parhau

Bydd angen i ni adolygu'r dull yma o weithredu pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r metrics i'w ddefnyddio yng Nghymru hefyd.

Mae trosglwyddiadau amgylcheddol bellach yn arfer safonol yn yr holl drosoglwyddiadau rhwng CDA a Dŵr Cymru fel bod y rôl a'r cyfrifoldebau o gylch trwyddedu a monitro yn glir i bawb. Bydd angen cronfa ddata ganolog i gofnodi'r holl gytundebau hyn wrth edrych tua'r dyfodol.

Mae CDA wedi llunio strategaeth bioamrywiaeth a charbon sy'n ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol
Adolygu'r ymrwymiad er mwyn caniatáu ar gyfer datblygu gwaith caffael pellach. Adlewyrchu unrhyw gynnydd o ran y metrics bioamrywiaeth (Cymru a Lloegr) at y dyfodol.

Diweddariad ar gynnydd:
Yn parhau, ar y trywydd iawn

Ymrwymiad 28

Yn dilyn y treial bioamrywiaeth ar nifer o'n safleoedd gweithredol er mwyn dangos sut y gellir cynnal byd natur heb danseilio dibenion gweithredol safleoedd nac iechyd a diogelwch ein cydweithwyr, byddwn ni'n datblygu Cynlluniau Rheoli Bioamrywiaeth ar gyfer safleoedd penodol.

Ymrwymiad cynllun 2020:
Yn parhau

Statws a Diweddariad
Cwblhawyd yr astudiaethau gwaelodlin o ran bioamrywiaeth a gomisiynwyd ar draws 100 o GTDG gan ddefnyddio offeryn metrics 3.1 Defra am fioamrywiaeth yn 2022. Bydd y rhain yn llywio ein dull o fynd ati gyda'r cylch nesaf o astudiaethau yn AMP8. Bydd angen adolygu ein dull o weithredu pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r metrics bioamrywiaeth a ddefnyddir yng Nghymru.

Mae cynlluniau rheoli bioamrywiaeth penodol ar gael ar gyfer 7 safle.

Caiff hysbysfyrddau amgylcheddol eu rhyddhau ar gyfer yr holl asedau ar sail yr astudiaethau gwaelodlin — bydd hyn yn dweud ar yw'r safle mewn ardal ddynodedig, yn enwi unrhyw rywogaethau a amddiffynnir o'r ardaloedd a glustnodwyd ar gyfer gwaith gwella bioamrywiaeth.

Llunio offeryn mapio rhyngweithiol yn rhan o'r astudiaethau gwaelodlin ar fioamrywiaeth.

Prosiect arloesi arobryn — Dosbarthwyd pecynnau gofal bioamrywiaeth ar draws ein safleoedd gweithredol ar gyfer gwelliannau pellach...

- 29.5kg o hadau bywyd gwyllt
- 39 blwch ystlumod
- 2 westy chwilod
- 65 tŷ adar
- 200 bwlb

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol
Adolygu'r ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu'r canfyddiadau.

Diweddariad ar gynnydd:
Cwblhawyd

Ymrwymiad 29

Byddwn ni'n parhau i goladu'r wybodaeth ecolegol, fel arolygon, sydd gennym eisoes i'n helpu ni i lywio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd. Yn rhan o'r gwaith yma, byddwn ni'n chwilio am dystiolaeth o bresenoldeb y rywogaethau

Statws a Diweddariad
Mae cronfeydd data canolog yn cael eu datblygu i'w defnyddio o fewn Dŵr Cymru ar hyn o bryd:

- Cronfa ddata trwyddedu a monitro
- Cronfa ddata o asedau o fewn neu'n agos at safleoedd dynodedig (safleoedd SoDdGA, ACA, AGA)
- Ymwybyddiaeth am rywogaethau Adran 7 a'u lleoliad mewn perthynas ag asedau (er enghraifft Pathewod, Ystlumod a Madfallod Dŵr Cribog)
- 'Sgoriau' gwaelodlin am fioamrywiaeth

neu'r cynefinoedd mewn Rhestrau Bioamrywiaeth a gyhoeddir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Ymrwymiad cynllun 2020:
Yn parhau

Ymrwymiad 30

Yn dilyn ein gwaith gyda'n rheoleiddwyr, rydyn ni wedi cynnwys atebion sy'n seiliedig ar fioamrywiaeth a byd natur yn yr opsiynau'r cynllun a ystyriwyd wrth i ni ddatblygu ein rhaglen fuddsoddi ar gyfer 2020–2025. Yn rhan o'r gwaith yma, clustnodwyd cyfleoedd posibl ar gyfer prosiectau wedi eu sbarduno gan fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â chyflawni ein swyddogaethau, a byddwn ni'n adolygu'r achos dros fuddsoddi mewn pryd ar gyfer pennu ein cynllun busnes terfynol ar gyfer 2020–2025.

Ymrwymiad cynllun 2020:
Yn parhau

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Clustnodi cronfeydd data pellach y mae angen eu datblygu at y dyfodol.

Diweddariad ar gynnydd:
Yn parhau, ar y trywydd iawn

Statws a Diweddariad

Rydyn ni'n parhau i sefydlu bioamrywiaeth yn rhan o'r rhaglenni gwaith yma.

Rheoli Adnoddau Naturiol mewn ffordd Gynaliadwy (SMNR)

Mae methodoleg ar waith i sefydlu hyn o fewn y busnes. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r tîm i chwilio am gyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth yn ardaloedd yr astudiaethau peilot.

I goel rhagor o fanylion am ein dull o weithredu o ran SMNR:

<https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/sustainable-management-of-natural-resources>

Y Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP)

Cynllun sy'n cael ei lywio gan y cwsmeriaid yw hwn a'i ffocws fydd tacio sialensiau'r twf yn y boblogaeth, blerdwf trefol a'r newid yn yr hinsawdd o ran ein systemau draenio a dŵr gwastraff rhwng 2025 a 2050. Ymgynghorwyd ar y drafft cyntaf. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r tîm i ganfod cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth a'u sefydlu yn y cynllun.

I goel rhagor o fanylion am DWMP:

dwrcymru.com/cy-gb/our-services/wastewater/drainage-and-wastewater-management-plan

Cyfrifo cyfalaf natur — Mae dulliau cyfrifo aml-gyfalaf yn cael eu datblygu at ddefnydd cyffredinol wrth gynllunio asedau. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau o ran sut i ychwanegu gwerth at fioamrywiaeth o ystyried y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio metrics gwahanol i offeryn 3.1 DEFRA.

Gweithredoedd ar gyfer Cynllun Bioamrywiaeth 2023 a'r dyfodol

Adolygu'r ymrwymiad gyda phob arweinydd rhaglen i ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth ymhellach.

Diweddariad ar gynnydd:
Cwblhawyd

EDRYCH TUA'R DYFODOL — BETH YW'R CAMAU NESAF?

Yn dilyn yr adroddiad hwn, o dan adran 6(8) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i ni fynd ati nawr i adolygu ein cynllun bioamrywiaeth (Neilltuo amser ar gyfer natur — ein cynllun diwygiedig, 2020). Bydd ein trydydd cynllun bioamrywiaeth, a gyhoeddir erbyn Rhagfyr 2023, yn adolygu'r 30 ymrwymiad er mwyn sicrhau eu bod nhw'n dal i fod yn addas at eu pwrpas o ran ein huchelgeisiau i gyflawni a rhagori ar ein dyletswydd bioamrywiaeth. Bydd y cynllun newydd yn caniatáu i ni alinio hefyd â'n strategaeth bioamrywiaeth a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2022, a chysylltu'n benodol â'n cynlluniau buddsoddi a'n dyheadau ar gyfer AMP8 a bennwyd yn ein cynllun busnes ar gyfer AMP8 a Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol Cymru.

Ein gobaith yw cynnal gweithdy i ddatblygu ein cynllun newydd sy'n cynnwys y rhanddeiliaid allweddol, y rheoleiddwyr a'r holl dimau mewnol perthnasol yn Dŵr Cymru.

Bydd y ffenestr adrodd nesaf yn rhedeg rhwng 2023 a 2025 a fydd yn cau pen y mwdwl ar y cylch ariannu AMP cyfredol. Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio â'n partneriaid er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl ar gyfer byd natur.

Byddem ni'n croesawu eich syniadau a'ch awgrymiadau yn ogystal ag unrhyw gyfleoedd i gydweithio nawr ac yn y dyfodol. Gallwch gysylltu â ni trwy biodiversity@dwrcymru.com



SYLW I GLOI



Mae hi'n hyfryd gweld angerdd ac ymroddiad cydweithwyr a phartneriaid fel ei gilydd sy'n ein cynorthwyo ni i gynnal, amddiffyn a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol, ac yn arbennig yn wyneb sialensiau diweddar fel y pandemig, y cynnydd mewn costau byw a deunyddiau adeiladu, a holl gythrwfl materion rhyngwladol.

Er gwaetha'r holl bethau hyn, rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarn i wella ein hamgylchedd, ac wrth annog, addysgu a chynorthwyo'r bobl hynny sydd ag angerdd i wneud gwahaniaeth.

Ar lefel Ewropeaidd, mae lluo o gyfreithiau amgylcheddol newydd neu diwygiedig wedi dod i rym, ac mae rhagor i ddod, a bydd y rhain oll yn cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r CU. Eleni, cydnabu Senedd Ewrop, er mwyn i'r gymdeithas lygru'r amgylchedd yn llai, rhaid i dechrau trwy ofyn i'r bobl hynny sy'n cynhyrchu'r llygryddion ariannu gwelliannau, gan gymell diwydiannau i greu llai o gemegolion a chynhyrchion fferyllol niweidiol. Rydyn ni wedi bod yn llywio newid deddfwriaethol yng Nghymru hefyd, gyda gwell rheolaeth dros blastigau untro, a fframweithiau newydd i hybu a chynnal prosesau amaethyddol cynaliadwy.

Mae hi'n dal i fod yn hanfodol i'r sector dŵr ac amgylcheddol ar led gydweithio mewn partneriaeth, gyda phob un yn chwarae rhan fel y gallwn gyflawni'r newidiadau y mae'r gymdeithas yn gofyn amdanynt yn effeithlon, ac mae'n sicr y bydd angen gwneud hynny os ydym am drosglwyddo amgylchedd naturiol lle gallant lewyrchu i'r genhedlaeth nesaf. Bydd partneriaethau o'r fath yn cynnwys pob math o sefydliadau, gan gynnwys y llywodraeth, rheoleiddwyr, cyrff amgylcheddol anllywodraethol, byd diwydiant, ac wrth gwrs y cwsmeriaid eu hunain. Bydd y gwaith yn gofyn am fuddsoddiad, bydd angen ariannu hyn, a bydd hyn yn gofyn am gefnogaeth pawb. I'r perwyl hwnnw, byddwn ni'n pennu ein cynigion buddsoddi, ac yn benodol, sut rydyn ni'n bwriadu cynnal a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol, erbyn 2023 yn y gobaith y bydd ein cwsmeriaid yn cefnogi gwaith o'r fath. Ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno, byddwn ni'n cadarnhau ein cynllun blaengar ar gyfer cyfoethogi bioamrywiaeth. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld hyn yn arwain at bartneriaethau pellach, ac yn denu cronfeydd eraill sydd ar gael i'n galluogi ni i gyflawni ein Gweledigaeth ac yn caniatáu i'n Gweledigaeth barhau.

”

**MAE HI'N DAL I FOD
YN HANFODOL I'R
SECTOR DŴR AC
AMGYLCHEDDOL
AR LED GYDWEITHIO
MEWN PARTNERIAETH
A'I GILYDD.**

”

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cynnydd a wnaed ac y byddwn ni'n parhau i'w wneud. Dim ond trwy eich angerdd, eich egni a'ch cymorth chi y bydd gennym unrhyw obaith o lwyddo a chreu amgylchedd y byddwn ni'n falch o'i drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gael parhau i weithio gyda chi oll yn y gwaith pwysig yma.

Tony Harrington
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd

CREDYDAU'R DELWEDDAU

1	Gwenynen: Shutterstock
4–5	Rhaeadr: Shutterstock
7	Glas y Dorlan: Shutterstock
10–11	Tŷ adar: Shutterstock
12	Arwyddion Bioddiogelwch: Millicent Wilson, Dŵr Cymru
12	Cregyn Glas Rhesog yn Llandegfedd: Chloe White, Dŵr Cymru
13	Cynhadledd TarddLe 2022: Tara Froggatt, Dŵr Cymru
14	Taenu gwair gwyrdd: Gemma Williams, Dŵr Cymru
14	Casglu hadau: Kevin McGinn, Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru
15	Gwalch y Pysgod: Shutterstock
15	Technoleg Agrisound: Gemma Williams, Dŵr Cymru
16–17	Llwybr pysgod: Shutterstock
18	Stop Cyn Creu Bloc: Dŵr Cymru
18	Prosiect Afonydd Menai: Afonydd Menai
19	Hyfforddiant adeiladu waliau sych: Annie Smith, Dŵr Cymru
19	Crassula: Sonal Varia, CABI
20–21	Ffwng: Annie Smith, Dŵr Cymru
22	Graffeg bioamrywiaeth: Dŵr Cymru
22	Codwarth Caled: Andy Knowles, Dŵr Cymru
23	Diwrnodau Cymunedol: Victoria Collier, Dŵr Cymru
23	Arwyddion bioamrywiaeth: Katie Sutton, Dŵr Cymru
24	Clwyd ystlumod: Huw Beckett, Mott Macdonald Bentley
24	Y Gronfa Gymunedol: Gerddi Botaneg Abertawe
25	Prosiect Coetiroedd Cymunedol: Annie Smith, Dŵr Cymru
27	Afon Dyfrdwy: Shutterstock
28–29	Darparwyd gan yr Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth
44	Tirwedd: Shutterstock

